General Pharmaceutical Council

# Adroddiad blynyddol

Adroddiad addasrwydd i ymarfer blynyddol

Cyfrifon blynyddol

2019/20

General
Pharmaceutical
Council

# Adroddiad Blynyddol

## Adroddiad addasrwydd i ymarfer blynyddol
## Cyfrifon blynyddol
## 2019/20

**Adroddiad blynyddol ac adroddiad addasrwydd i ymarfer blynyddol i'w cyflwyno i Senedd y DU a Senedd yr Alban yn unol â pharagraff 8 Atodlen 1 Gorchymyn Fferylliaeth 2010**

**Cyfrifon blynyddol i'w cyflwyno i Senedd y DU a Senedd yr Alban yn unol â pharagraff 8 Atodlen 1 Gorchymyn Fferylliaeth 2010**

OGL

© Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2020

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i **nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3**.

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (heblaw am y logo a'r brandio) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, cyn belled â'i fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir a heb fod mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod mai gan y Cyngor Fferyllol Cyffredinol y mae'r hawlfraint a rhaid nodi teitl y ddogfen.  Os ydych wedi dyfynnu deunydd gan drydydd parti rhaid i chi gael caniatâd deiliad yr hawlfraint.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y ddogfen hon, e-bostiwch **communications@pharmacyregulation.org** neu ffoniwch ein canolfan cyswllt cwsmeriaid ar **020 3713 8000**.

Gallwch hefyd ddarllen y ddogfen hon ar ein gwefan yn **www.pharmacyregulation.org/annualreport**  a'i lawrlwytho o **www.gov.uk/official-documents**

# Cynnwys

Adroddiad Blynyddol .......... 3
Cip yn ôl dros ein blwyddyn .......... 6
Rhagair .......... 7
Amdanon ni .......... 9
Y gofrestr .......... 10
Ein llwyddiannau yn 2019/20 .......... 12
Edrych tua'r dyfodol .......... 26
Adroddiad addasrwydd i ymarfer blynyddol .......... 27
Y gofynion adrodd sydd arnon ni .......... 33
Ein dull llywodraethu .......... 34
Datganiad llywodraethiant 2019/20 .......... 45
Datganiadau ariannol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 .......... 49
Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor o ran paratoi'r datganiadau ariannol .......... 52
Adroddiad yr archwilydd annibynnol i aelodau cyngor y Cyngor Fferyllol Cyffredinol .......... 53
Datganiad incwm cynhwysfawr am y flwyddyn ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 .......... 55
Datganiad ar y sefyllfa ariannol fel yr oedd ar 31 Mawrth 2020 .......... 56
Datganiad llifoedd arian am y flwyddyn ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 .......... 57
Datganiad ar newidiadau i gronfeydd am y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 .......... 58
Nodiadau i'r datganiadau ariannol am y flwyddyn ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 .......... 59
Atodiad 1: Penderfyniad Ar Gyfrifon y Cyngor Fferyllol Cyffredinol gan y Cyfrin Gyngor dan Orchymyn Fferylliaeth 2010 .......... 74

# Cip yn ôl dros ein blwyddyn

Y gofrestr fel yr oedd ar 31 Mawrth 2020:

**57,651** o fferyllwyr

**23,705** o dechnegwyr fferyllol

**14,181** o fferyllfeydd cofrestredig

**3,332** o fferyllwyr a **2,909** o dechnegwyr fferyllol ar ein cofrestr dros dro fel yr oedd ar 31 Mawrth yn ystod argyfwng COVID-19

**172** o staff CFfC wedi eu symud i weithio o bell

**2,892** o fferyllfeydd wedi eu harolygu yn 2019/20

Wedi dechrau cyhoeddi adroddiadau arolygu fferyllfeydd ar ein gwefan newydd

**142** o enghreifftiau o arfer nodedig mewn fferyllfeydd wedi eu cyhoeddi yn ein hyb gwybodaeth newydd

**2,985** Wedi derbyn o bryderon ynghylch gweithwyr fferyllol proffesiynol

Dros **2,110** o ymatebion ysgrifenedig wedi eu derbyn i **3** ymgynghoriadcyhoeddus

Wedi cyfrannu at dros **61** o ddigwyddiadau ymgysylltu ledled Prydain

Wedi ymateb i dros **68,900** o alwadau ac e-byst gan aelodau cofrestredig a'r cyhoedd

Dros **9.2 million** miliwn o ymweliadau â'n gwefan

# Rhagair

## gan ein cadeirydd, Nigel Clarke, a’n prif weithredwr, Duncan Rudkin

Bydd y flwyddyn ddiwethaf hon yn cael ei chofio am byth fel y flwyddyn y dechreuodd pandemig oronafeirws (COVID-19).

Mae'r pandemig wedi cael effaith aruthrol ar fywydau pob un ohonon ni, ar y gwaith a wnawn a'r ffordd rydyn ni’n ei wneud.

Mae fferyllfeydd wedi bod ar y rheng flaen o ran cefnogi anghenion gofal iechyd cleifion a'r cyhoedd yn ystod y pandemig, gan aros ar agor i wasanaethu eu cymunedau mewn amgylchiadau anodd iawn.

Rydyn ni’n edmygu'n fawr y ffordd y mae pobl sy'n gweithio ymhob rhan o’r maes fferylliaeth wedi ateb yr heriau sylweddol y maen nhw wedi'u hwynebu, gan gynnwys y galw digynsail am feddyginiaethau a chyngor yn ystod y cyfnod hwn. Rydyn ni’n talu teyrnged i bob aelod o'r timau fferyllol am yr hyn y maen nhw wedi'i wneud i gefnogi cleifion a'r cyhoedd, a thalwn deyrnged yn arbennig i'r rheiny sydd, yn anffodus, wedi colli eu bywydau yn ystod y pandemig. Byddwn yn cofio eu cyfraniad sylweddol, ac rydyn ni’n hyderus y bydd cleifion a'r cyhoedd yn gwneud yr un fath.

Mae pawb yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol wedi gorfod gweithio'n wahanol i ateb heriau'r pandemig hwn, gan ein cynnwys ni. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn esbonio'r newidiadau y dechreuon ni eu gwneud ym mis Mawrth i’n galluogi i ddilyn canllawiau llywodraethol ac amddiffyn ein staff ac eraill, gan barhau i gyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio allweddol mewn ffordd mor effeithiol â phosibl. Mae'r newidiadau hyn yn parhau i mewn i 2020/21 ac rydyn ni’n ddiolchgar i'n staff, i'n Cyngor ac i bawb rydyn

ni’n gweithio gyda nhw am eu hymroddiad, eu cadernid a'u cydweithrediad yn wyneb yr amgylchiadau eithriadol hyn.

Ar adeg pan fo'r pandemig yn parhau i ddominyddu ein bywydau a'n gwaith, mae'n hawdd iawn anghofio’r hyn a ddigwyddodd cyn y pandemig – a’n llwyddiannau dros y flwyddyn ddiwethaf yn enwedig. Ond mae'n bwysig edrych yn ôl a dathlu ein llwyddiannau, yn ogystal ag edrych ymlaen ac ystyried ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol.

Hon hefyd oedd y flwyddyn y dechreuon ni gyhoeddi adroddiadau arolygu a lansio ein hyb gwybodaeth i rannu arfer da ledled y sector fferyllol. Am y tro cyntaf, bu’n rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol fodloni'r holl ofynion ailddilysu. Cryfhaon ni ein canllawiau ar gyfer fferyllfeydd sy'n darparu gwasanaethau ar-lein, a rhoddon ni gamau cadarn ar waith yn erbyn y fferyllfeydd nad oedden nhw’n yn dilyn y canllawiau hyn ac a oedd yn peryglu cleifion.

Yn ystod 2019/20, datblygon ni ein *Gweledigaeth 2030*. Mae hon yn weledigaeth uchelgeisiol dros ddeng mlynedd a fydd yn canolbwyntio ein hymdrechion ar y gwahaniaeth rydyn ni am ei wneud. Mae ein cynllun strategol ar gyfer 2020–25 yn crynhoi'r gwaith rydyn ni’n bwriadu ei wneud yn ystod y pum mlynedd nesaf tuag at wireddu'r weledigaeth hon, a sbarduno gwelliannau yn y ffordd y darperir gwasanaethau fferyllol ac yn ansawdd arferion fferyllol ar gyfer cleifion a'r cyhoedd.

Ni allwn wneud hynny ar ein pennau ein hunain ac rydyn ni wedi ymrwymo i weithio'n agos gydag eraill i wireddu ein gweledigaeth o ofal fferyllol diogel ac effeithiol wrth galon cymunedau iachach.



**Nigel Clarke**
Cadeirydd



**Duncan Rudkin**
Prif Weithredwr a Chofrestrydd

# Amdanon ni

## Pwy ydyn ni

Ni sy'n rheoleiddio fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd ym Mhrydain.

Rydyn ni'n gweithio i roi sicrwydd ynghylch, a gwella, safonau gofal ar gyfer pobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol.

## Yr hyn a wnawn

Ein rôl yw diogelu'r cyhoedd a rhoi sicrwydd iddynt y byddant yn derbyn gofal diogel ac effeithiol wrth ddefnyddio gwasanaethau fferyllol.

Rydyn ni'n gosod safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol a fferyllfeydd er mwyn iddynt gael eu derbyn ar ein cofrestr, ac aros arni.

Rydyn ni'n gofyn i weithwyr fferyllol proffesiynol a fferyllfeydd am dystiolaeth eu bod yn parhau i gyrraedd ein safonau, ac mae hyn yn cynnwys arolygu fferyllfeydd.

Rydyn ni'n gweithredu i ddiogelu'r cyhoedd a chynnal ffydd y cyhoedd mewn fferylliaeth pan fo pryderon am weithiwr fferyllol proffesiynol neu fferyllfa ar ein cofrestr.

Drwy ein gwaith, rydyn ni'n helpu i hybu proffesiynoldeb, yn cefnogi gwelliant parhaus ac yn sicrhau ansawdd a diogelwch fferylliaeth.

## Newidiadau i…

### Ein Cyngor

Eleni, gorffennodd tri o aelodau ein cyngor eu hail dymor ar 31 Mawrth 2020. Hoffem ddiolch i Alan Kershaw, Digby Emson OBE (a orffennodd hefyd fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg) ac Evelyn McPhail am eu cyfraniad.

Cynhaliwyd proses recriwtio gennym yn ystod hydref 2019 a phenodwyd tri aelod newydd i'r cyngor gan y Cyfrin Gyngor. Dechreuodd yr aelodau newydd, Rose Marie Parr, Selina Ullah a Yousaf Ahmad, eu tymor ar 1 Ebrill 2020.

Gallwch **ddarllen mwy am aelodau ein cyngor** yn adran 'Amdanon ni' ein gwefan.

### Ein Staff

Yn Ebrill 2019, ymunodd Jonathan Bennetts fel Cyfarwyddwr Cyllid.

# Y gofrestr




## Y gofrestr ar 31 Mawrth 2020

Gall pob aelod o'r cyhoedd weld a yw fferyllydd, technegydd fferyllfol neu fferyllfa wedi'u cofrestru ym Mhrydain, drwy edrych ar y gofrestr ar ein gwefan. Gallwch hefyd weld unrhyw benderfyniadau rydyn ni wedi'u gwneud ynghylch a yw gweithwyr fferyllol proffesiynol yn ddiogel i ymarfer fferylliaeth, a pha fferyllwyr sydd hefyd yn 'bresgripsiynwyr atodol' neu'n 'bresgripisynwyr annibynnol'.

Er mwyn gallu ymarfer ym Mhrydain, mae'n rhaid i fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol ein bodloni eu bod yn cyrraedd y safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol. Dim ond wedyn y gallan nhw ymuno â'r gofrestr. Yn yr un modd, rhaid i unrhyw un sydd eisiau cofrestru fferyllfa neu adnewyddu'r cofrestriad hwnnw hefyd gyrraedd ein safonau.

Pan fydd fferyllydd neu dechnegydd fferyllol yn adnewyddu eu cofrestriad gyda ni bob blwyddyn, mae'n rhaid iddyn nhw wneud datganiad yn cadarnhau eu bod yn cyrraedd pob un o'n safonau.

Mae unrhyw un nad yw wedi cofrestru gyda ni, ond sy'n ymarfer fel fferyllydd neu dechnegydd fferyllol, yn torri'r gyfraith a gellir ei erlyn.

Galla **chwilio'r gofrestr ar-lein** am fanylion ynghylch fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd.

## Cofrestru dros dro

Ym mis Mawrth 2020, defnyddion ni ein pwerau brys i roi cofrestriad dros dro i 3332 o fferyllwyr a 2909 o dechnegwyr fferyllol a oedd wedi gadael y gofrestr yn ystod y tair blynedd flaenorol. Roedd hyn er mwyn eu galluogi i ddychwelyd i'r gwaith yn ystod pandemig COVID-19 (coronafeirws).

Gall y gweithwyr fferyllol proffesiynol sydd ar y gofrestr dros dro ymarfer ym Mhrydain yn ystod argyfwng COVID-19. Mae'n rhaid iddyn nhw gyrraedd y safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol, gan gynnwys gweithio o fewn terfynau eu sgiliau a'u cymhwysedd.

## Ffioedd cofrestru

O 1 Gorffennaf 2019, cynyddodd ffioedd derbyn ac adnewyddu, ar gyfer:

- fferyllwyr gan £7 o £250 i £257
- technegwyr fferyllol gan £3 o £118 i £121
- lleoliadau fferyllol gan £21 o £241 i £262

Dyma'r tro cyntaf i'r CFfC gynyddu ffioedd ers 2015, ac i weithwyr fferyllol proffesiynol mae'r ffioedd yn dal yn is na'r rhai oedd yn cael eu codi yn 2011.

Ym mis Ionawr 2020, lansiwyd ymgynghoriad gennym ar gynyddu ffioedd cofrestru lleoliadau fferyllol o £262 i £365. Nod y cynnydd a gafodd ei gynnig oedd cau'r bwlch o £103 rhwng y ffioedd oedd yn cael eu talu gan fferyllfeydd a'r costau gwirioneddol o reoleiddio pob fferyllfa, yn seiliedig ar ffigurau 2018/19.

Daeth dros 1700 ymatebion i'r cynnig i law, ac rydyn ni bellach yn ystyried ein camau nesaf, gan gofio’r sefyllfa bresennol.

# Ein llwyddiannau yn 2019/20

### Gwneud newidiadau i'r ffordd rydyn ni'n rheoleiddio ac arolygu fferyllfeydd cofrestredig

Eleni gwnaethon ni newidiadau sylweddol i'n dull o reoleiddio ac arolygu fferyllfeydd cofrestredig. Defnyddion ni ein pwerau gorfodi, a dechrau cyhoeddi adroddiadau arolygu.

### Egluro'r hyn rydyn ni'n ei ddisgwyl, a'r hyn y gall y cyhoedd ei ddisgwyl, gan wasanaethau fferyllol ar-lein

Eleni cyhoeddon ni ganllawiau ar gyfer fferyllfeydd sy'n darparu gwasanaethau ar-lein. Mae'r rhain yn nodi'n glir y mesurau y dylent eu rhoi ar waith i sicrhau eu bod yn darparu eu gwasanaethau'n ddiogel. Cyhoeddon ni hefyd ganllawiau i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol ar-lein i'w helpu i gael gofal diogel ac effeithiol.

### Parhau â'n gwaith ar safonau newydd ar gyfer addysg a hyfforddiant fferyllol

Gwnaethom barhau â'n gwaith o ddatblygu cynigion ac ymgynghori ar gasgliad newydd o safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant cychwynnol fferyllwyr. Mae hyn yn rhan o'n rhaglen waith yn adolygu'r safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant y tîm fferyllol.

### Cyflwyno sgwrs gyda chyfoedion a darn adfyfyriol i'r broses ailddilysu

Gweithwyr fferyllol proffesiynol a oedd i fod i adnewyddu eu cofrestriad erbyn 31 Hydref 2019 oedd y grŵp cyntaf i gyflwyno sgwrs gyda chymar proffesiynol a darn adfyfyriol yn rhan o'u proses ailddilysu.

### Gwella'r ffordd rydyn ni'n gweithio

Yn ystod 2019/20 parhawyd i adeiladu ar ein hymrwymiad i wella ein ffordd o weithio. Roedd hyn yn cynnwys:

- cytuno ar weledigaeth ddeng mlynedd o ran gofal fferyllol diogel ac effeithiol wrth galon cymunedau iachach, a
- gwneud gwelliannau gweithredol, fel symud y broses ymgeisio am gofrestriad fel fferyllydd neu dechnegydd fferyllol o fod yn un bapur i fod yn un ar-lein

## Gwneud newidiadau i'r ffordd rydyn ni’n rheoleiddio ac arolygu fferyllfeydd cofrestredig

Eleni gwnaethon ni newidiadau sylweddol i'n dull o reoleiddio ac arolygu fferyllfeydd cofrestredig.

### Cynnal arolygiadau o dan y dull newydd

O Ebrill 2019, dechreuon ni arolygu fferyllfeydd cofrestredig gan ddefnyddio ein dull gweithredu newydd, wedi'i fireinio. Mae egwyddorion y dull hwn yn **adran arolygiadau ein prif wefan**. Mae ein dull gweithredu newydd wedi golygu:

- cyflwyno gwahanol fathau o arolygiadau, gan gynnwys:
  - arolygiadau rheolaidd sy'n defnyddio 'dangosyddion risg' i bennu eu blaenoriaethau
  - arolygiadau wedi eu harwain gan wybodaeth, sy'n ein galluogi i ymateb yn gyflym i wybodaeth sy’n dod i law
  - arolygiadau thematig lle rydyn ni’n ymweld â detholiad o fferyllfeydd i ganolbwyntio ar themâu neu faterion penodol yn fanwl
- cael arolygiadau dirybudd fel rheol gyffredinol
- newid ystod y canlyniadau arolygu
- 
- cyhoeddi adroddiadau arolygu, a chynlluniau gweithredu gwella pan fo'n berthnasol, ar wefan newydd
- ei gwneud yn ofynnol i gyrraedd y safonau i gyd cyn derbyn canlyniad cyffredinol 'Cyrraedd y safonau'
- rhannu enghreifftiau o arfer nodedig

**Arolygu**

- 2,892 o fferyllfeydd wedi eu harolygu yn 2019/20
- 142 o enghreifftiau o arfer nodedig mewn fferyllfeydd wedi eu cyhoeddi ar ein hyb gwybodaeth newydd
- 430 o gynlluniau gweithredu wedi eu cytuno gyda fferyllfeydd yn 2019/20
- Roedd 82 y cant o'r fferyllfeydd a gafodd ailarolygiad ar ôl 6 mis wedi gwneud y gwelliannau gofynnol*

*****Mae'r 18 y cant sy'n weddill yn cynnwys fferyllfeydd a oedd wedi gwneud gwelliannau cychwynnol oedd yn dangos y gallent gyrraedd y safonau, ond heb eu cynnal yn llawn. Neu, adeg eu hail-arolygu, gwelwyd eu bod 'heb gyrraedd' safon wahanol i'r rhai nad oedden nhw wedi eu cyrraedd yn eu harolygiad cyntaf. Ym mhob un o'r achosion hyn, rydyn ni wedi rhoi camau pellach ar waith i sicrhau bod y fferyllfeydd yn gwneud y gwelliannau gofynnol, yn unol â'n polisi gorfodi. Bydd pob un ohonyn nhw’n cael eu harolygu eto ymhen chwe mis.

## Cyhoeddi adroddiadau arolygu

Ym mis Medi 2019, lansiwyd ein gwefan arolygiadau fferyllol, lle dechreuon ni gyhoeddi adroddiadau arolygu.

Cyn y lansiad, fe wnaethon ni ddiweddaru adran arolygiadau ein prif wefan. Ychwanegwyd adnoddau i helpu i sicrhau bod gweithwyr fferyllol proffesiynol a pherchnogion fferyllfeydd yn barod ar gyfer y dull arolygu newydd a chyhoeddi adroddiadau arolygu. Buon ni’n gweithio gydag amrywiaeth o gyrff cynrychioli fferyllol, gan gynnwys rhoi cyflwyniadau a chynnal sesiynau Holi ac Ateb. Rydyn ni hefyd wedi darparu casgliad o adnoddau ar gyfer sefydliadau i'w helpu i hyrwyddo'r safle cyhoeddi newydd ymhlith eu haelodau ac yn eu rhwydweithiau.

Cyhoeddon ni ein hadroddiad mewnwelediadau *Dysgu gan arolygiadau* ar y diwrnod lansiwyd ein safle cyhoeddi arolygiadau newydd. Roedd yr adroddiad yn rhannu’r hyn rydyn ni wedi'i ddysgu o gynnal dros 14,000 o arolygiadau, gan gynnwys pob fferyllfa gofrestredig ym Mhrydain ers 2013. Roedd yr adroddiad yn rhestru rhai themâu, patrymau a thueddiadau allweddol y gall pob fferyllfa a thîm fferyllol eu defnyddio i wella.

Cyhoeddwyd dros 1000 o adroddiadau arolygu yn fyw ar y safle newydd pan gafodd ei lansio ym mis Medi. Roedd y rhain yn adroddiadau ar arolygiadau oedd wedi eu cynnal ers Ebrill 2019. Mae'r safle hefyd yn cynnwys **'hyb gwybodaeth' ar-lein** ar gyfer y tîm fferyllol. Mae ynddo enghreifftiau o arferion rhagorol, da a gwael a nodwyd gan arolygiadau fferyllol.

## Ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd ynglŷn ag arolygiadau fferyllol

Casglwyd adborth gan gleifion a'r cyhoedd er mwyn helpu i gynllunio'r wefan ac i sicrhau y gallent ddod o hyd i wybodaeth berthnasol am fferyllfeydd yn gyflym ac yn rhwydd.

Cysylltwyd hefyd â chyrff cynrychioli cleifion i roi gwybod iddyn nhw am y safle arolygu newydd a'r wybodaeth newydd sydd ar gael. Ategwyd hyn drwy gynhyrchu canllaw i aelodau'r cyhoedd ar yr hyn i'w ddisgwyl wrth ymweld â fferyllfa, a chynhyrchwyd posteri i’w harddangos mewn fferyllfeydd ledled Prydain.

## Fferyllfeydd ar-lein

Ym mis Ebrill, cryfhaon ni ein canllawiau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig sy'n darparu gwasanaethau fferyllol o bell, gan gynnwys ar y rhyngrwyd. Gallwch ddarllen mwy am y canllawiau hyn yn adran **Egluro’r hyn rydyn ni’n ei ddisgwyl gan wasanaethau fferyllol ar-lein**. Cynhaliwyd rhaglen o arolygiadau â blaenoriaethau ar fferyllfeydd ar-lein er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd ein safonau yng ngoleuni'r canllawiau cryfach. Mae'r rhaglen hon wedi'i harwain gan wybodaeth ac roedd yn defnyddio 'dangosyddion risg'. Ac fe ddefnyddion ni dimau o arolygwyr gan gynnwys arbenigwyr gyda sgiliau presgripsiynu annibynnol. Mae'r dull newydd hwn wedi gweithio'n dda i sicrhau bod gennym y cyfuniad iawn o sgiliau a chapasiti yn yr arolygiadau hyn i adlewyrchu natur ac ystod y gwasanaethau y mae fferyllfeydd yn eu darparu.

## Defnyddio ein pwerau gorfodi

Eleni rydyn ni wedi defnyddio **ystod lawn ein pwerau gorfodi** mewn sawl achos, i sicrhau bod fferyllfeydd cofrestredig yn cyrraedd ein safonau. Yn benodol, rydyn ni wedi rhoi camau gorfodi ar waith yn erbyn perchenogion nifer o fferyllfeydd ar-lein a oedd yn cyflenwi meddyginiaethau risg uchel, y maen hawdd mynd yn gaeth iddynt, heb weithredu'r camau priodol i sicrhau bod y feddyginiaeth a gafodd ei phresgripsiynu a'i gweinyddu yn glinigol briodol i'r claf.

Pan fo'n harolygwyr wedi gweld bod mesurau annigonol ar waith i reoli risgiau i gleifion, rydyn ni wedi cyflwyno hysbysiadau gwella, neu wedi gosod amodau ar gofrestriadau fferyllfeydd. At ei gilydd, os oedd fferyllfeydd yn cyflenwi meddyginiaethau risg uchel, mae'r amodau a osodwyd yn cyfyngu ar eu hawl i werthu neu gyflenwi cyffuriau a reolir, yn unol â'n polisi gorfodi. Rydyn ni hefyd wedi rhoi camau ar waith yn ddiweddar yn erbyn perchenogion fferyllfeydd cofrestredig – yn ogystal ag yn erbyn gweithwyr fferyllol unigol oedd ynghlwm wrth bresgripsiynu a chyflenwi meddyginiaethau – pan fo'u hymddygiad wedi bod yn is na'r safonau proffesiynol a ddisgwyliwn.

### Camau gorfodi yn 2019/20

Yn 2019/20, rydym wedi defnyddio ein pwerau gorfodi i:

- gyhoeddi hysbysiadau gwella i chwe fferyllfa
- gosod amodau ar 20 fferyllfa
- cyflwyno gorchymyn gwahardd dros dro i un fferyllfa

## Gwella ein gallu i asesu gwasanaethau fferyllol clinigol a thechnoleg newydd a gefnogir

Eleni cynhaliwyd adolygiad, ymhlith yr holl leoliadau fferyllol, ar yr amrywiaeth o arferion clinigol sydd ar waith – gan gynnwys sut mae technoleg yn cael ei defnyddio. Defnyddiwyd hyn i greu darlun o'r mathau o wybodaeth a sgiliau clinigol y bydd eu hangen arnon ni o bosibl yn y dyfodol i'n helpu i reoleiddio'n effeithiol. Bydd hyn yn ein galluogi i greu cronfa hyblyg o bobl sydd â sgiliau arbenigol, y gallwn fanteisio arni i gynnal arolygiadau, pan fo angen. Rydyn ni hefyd wedi dechrau cynllun peilot yn defnyddio presgripsiynwyr annibynnol profiadol sy'n ymarfer i gynorthwyo gyda'n harolygiadau pan fo'r gwasanaethau fferyllol a ddarperir yn fwy clinigol. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn y flwyddyn nesaf

Buon ni hefyd yn gweithio gyda'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol (RPS) a'r Sefydliad Cenedlaethol er Rhagoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) i gymharu eu canllawiau arfer gorau â'n safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig. Mae hyn yn rhoi ffynhonnell gyfeirio ddefnyddiol i ni ar sut i gymhwyso'r safonau pan fyddwn yn asesu ymarfer clinigol.

## Arolygiadau a COVID-19

Ym mis Mawrth 2020 daeth ein rhaglen arolygu arferol i ben dros dro. Roedd hyn yn cynnwys atal gwaith yn cynnal arolygiadau rheolaidd ar fferyllfeydd a llunio adroddiadau arolygu. Yn lle, rydyn ni wedi gweithredu ymagwedd gefnogol: parhau i gyflawni ein rôl, ond yn gweithio'n wahanol gyda pherchnogion fferyllfeydd a thimau fferyllol.

Rhoddodd ein harolygwyr gymorth a chyngor i fferyllfeydd ar sut i gyrraedd ein safonau a rheoli diogelwch cleifion mewn amgylchiadau heriol. Gwnaethon ni hefyd barhau i weithredu'n gyflym ar unrhyw wybodaeth a ddaeth i law oedd yn awgrymu risg i ddiogelwch cleifion mewn fferyllfeydd penodol.

Mae ein harolygwyr wedi gweld amrywiaeth o arferion da gan fod fferyllfeydd wedi canfod ffyrdd newydd ac arloesol o reoli gwasanaethau yn ystod y pandemig. Rydyn ni wedi ychwanegu adran 'Covid-19' at y ganolfan wybodaeth yn ddiweddar, i rannu'r enghreifftiau hyn gyda'r sector fferyllol ehangach.

## Egluro'r hyn rydyn a ddisgwyliwn gan wasanaethau fferyllol ar-lein

Eleni cyhoeddon ni ganllawiau wedi eu diweddaru ar gyfer fferyllfeydd sy'n darparu gwasanaethau ar-lein. Mae'r rhain yn nodi'n glir y mesurau y dylen nhw eu rhoi ar waith i sicrhau eu bod yn darparu'n ddiogel. Gweithiwyd gyda rheoleiddwyr eraill i ddatblygu a chyhoeddi canllawiau newydd i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol ar-lein, i gael gofal diogel ac effeithiol.

### Nodi'r prif ystyriaethau ar gyfer perchenogion a gweithwyr fferyllol

Yn Ebrill 2019, cyhoeddon ni **ganllawiau wedi eu diweddaru ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig sy'n darparu gwasanaethau fferyllol o bell, gan gynnwys ar y rhyngrwyd**. Mae'r canllawiau'n nodi'n glir bod gwerthu a chyflenwi meddyginiaethau o bell yn dod â gwahanol risgiau y mae angen eu rheoli'n briodol er mwyn amddiffyn diogelwch cleifion.

Mae'r canllawiau hefyd yn nodi'n glir bod rhai categorïau o feddyginiaethau yn anaddas i'w cyflenwi ar-lein heb fesurau diogelu ychwanegol ar waith i sicrhau eu bod yn glinigol briodol ar gyfer cleifion. Mae’r rhain yn cynnwys meddyginiaethau sy’n dueddol o gael eu cam-drin, eu gorddefnyddio neu eu camddefnyddio, neu rai fel cysgbeiriau a chyffuriau tawelu lle mae risg mynd yn gaeth iddyn nhw, neu pan fo monitro parhaus yn bwysig.

Ysgrifennodd ein Prif Weithredwr, Duncan Rudkin, **at berchenogion fferyllfeydd ar-lein** i ofyn iddynt ddarparu gwybodaeth am y camau y maen nhw wedi'u rhoi ar waith i ddilyn y canllawiau newydd, fel bod eu cleifion yn cael gofal diogel ac effeithiol. Rydyn ni wedi defnyddio'r wybodaeth hon i flaenoriaethu ein rhaglen arolygu.

## Rhoi camau ar waith ynghylch cyflenwi meddyginiaethau risg uchel yn anniogel ar-lein

Eleni rhoddon ni gamau rheoleiddio a gorfodi ar waith ar ôl adnabod pryderon sylweddol o ran diogelwch cleifion yn ymwneud â chyflenwi meddyginiaethau risg uchel y mae modd mynd yn gaeth iddynt ar-lein – gan gynnwys meddyginiaethau opioid. Daeth y pryderon hyn i'r golwg drwy arolygiadau fferyllol a oedd yn ystyried a oedd perchnogion fferyllfeydd ar-lein yn cyrraedd y safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig ac yn dilyn y canllawiau oedd wedi'u diweddaru.

Mae enghreifftiau o'r camau gorfodi yr ydyn ni wedi eu gweithredu'n cynnwys:

- rhoi amodau ar gofrestriad fferyllfa – Er enghraifft, ei gwneud yn ofynnol i fferyllfa ar-lein roi'r gorau i ddarparu rhai gwasanaethau tan iddi allu dangos bod systemau digonol ar waith i'w darparu'n ddiogel
- cyflwyno hysbysiad gwella i fferyllfa, yn nodi'r gwelliannau y mae'n rhaid iddi eu gwneud os nad yw wedi cyrraedd y safonau i gyd yn ystod arolygiad
- ymchwilio i addasrwydd i ymarfer fferyllwyr â chyfrifoldeb a presgripsiynwyr fferyllol annibynnol a gyflogir gan fferyllfeydd ar-lein

## Cynhyrchu canllaw ar y cyd â rheoleiddwyr eraill ar gyfer cleifion a'r cyhoedd

Ym mis Mawrth 2020 lansiwyd canllaw newydd i helpu pobl i sicrhau bod y meddyginiaethau neu driniaeth a gânt ar-lein yn ddiogel ac yn addas iddyn nhw. Cefnogwyd y canllaw gan naw sefydliad gofal iechyd allweddol arall yn y DU. Fe'i datblygwyd gan ddefnyddio gwersi a ddysgwyd o bryderon a godwyd gan gleifion a'r cyhoedd am wasanaethau gofal iechyd ar-lein, yn ogystal â defnyddio adborth uniongyrchol gan gleifion a'r cyhoedd.

**Mae'r canllaw yn cynnwys chwe phrif gyngor** i unrhyw un sy'n mynd ar-lein am feddyginiaethau neu driniaeth:

1. Gwirio a yw'r gwasanaeth gofal iechyd ar-lein a'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gweithio yno wedi cofrestru gyda rheoleiddwyr y DU.
2. Gofyn cwestiynau ynghylch sut mae'r gwasanaeth yn gweithio.
3. Ateb cwestiynau am eich iechyd a'ch hanes meddygol yn onest.
4. Sicrhau eich bod yn gwybod pa opsiynau triniaeth sydd ar gael i chi a sut i gymryd unrhyw feddyginiaethau roddir i chi ar bresgripsiwn.
5. Disgwyl cais am ganiatâd i rannu gwybodaeth â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill sy'n ymwneud â'ch gofal
6. Gwirio pa ôl-ofal y byddwch yn ei dderbyn.

### Gwasanaethau fferyllol ar-lein a COVID-19

Rydyn ni wedi parhau i hyrwyddo'r canllaw i gleifion a'r cyhoedd yn ystod pandemig COVID-19. Ar hyn o bryd mae mwy o bobl yn mynd ar-lein am feddyginiaethau, a gall rhai gwefannau heb eu rheoleiddio fod yn cynnig meddyginiaethau ffug, pecynnau profi heb eu rheoleiddio neu wybodaeth ffug.

Rydyn ni’n parhau i fonitro sut y darperir gwasanaethau fferyllol ar-lein yn ystod y pandemig.

## Parhau â'n gwaith ar safonau newydd ar gyfer addysg a hyfforddiant fferyllol

Parhaon ni gyda’n rhaglen waith yn adolygu'r safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant y tîm fferyllol.

### Ymgynghori ac ymgysylltu ynghylch addysg a hyfforddiant fferyllwyr yn y dyfodol

Ym mis Ebrill 2019, aethon ni ati i gasglu ynghyd a dadansoddi'r adborth ar ein cynigion ar gyfer safonau addysg a hyfforddiant cychwynnol fferyllwyr. Adlewyrchodd y cynigion y newidiadau mewn fferylliaeth yn y blynyddoedd diwethaf – yn benodol, symud tuag at rôl fwy clinigol, sy'n wynebu'r cleifion, ar gyfer fferyllwyr mewn amrywiaeth ehangach o leoliadau, a chynnydd yn yr ystod o wasanaethau y mae fferyllfeydd yn eu cynnig.

Ystyriwyd yr adborth a gawson ni mewn dros 600 o ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad, ac o ddigwyddiadau, cynadleddau a chyfarfodydd rhanddeiliaid.

Yn gyffredinol, roedd yr adborth yn eang ei gefnogaeth i egwyddorion:

- integreiddio astudiaethau academaidd a phrofiad ymarferol yn agosach, a
- chael un casgliad o safonau ar gyfer cyfnod cyfan addysg a hyfforddiant fferyllwyr cyn y cofrestriad cychwynnol.

Cododd pobl a sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad nifer o gwestiynau a materion eraill hefyd, yn arbennig ynghylch sut y byddai integreiddio dysgu academaidd ac ymarferol yn

gweithio. Gallwch **ddarllen  adroddiad yr ymgynghoriad sy'n dangos yr hyn a glywon ni ar ein gwefan**.

Yn 2019/20, cynhaliwyd ail gylch o ymgysylltu â rhanddeiliaid gan ganolbwyntio ar y prif syniadau a ddeilliodd o'r ymgynghoriad (integreiddio dysgu academaidd ac ymarfer ymhellach; dethol a derbyn; gwyddoniaeth, technoleg ac arweinyddiaeth). Gwahoddwyd cynrychiolwyr o ysgolion fferyllol, myfyrwyr, hyfforddeion, cyflogwyr, cyrff cyllido a chyrff proffesiynol i ymuno â gweithgor i archwilio'r opsiynau ymarferol ar gyfer integreiddio astudio a phrofiad ymarferol yn agosach.

Rydyn ni'n parhau i weithio'n agos gyda'r sefydliadau allweddol sy'n ymwneud ag addysg a hyfforddiant fferyllwyr i helpu i gwblhau'r safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant cychwynnol i fferyllwyr. Disgwyliwn i'r rhain gael eu cytuno yn 2020/21.

## Diweddaru'r gofynion ar gyfer addysg a hyfforddiant staff cymorth fferyllol

Mae rolau staff cymorth wedi ehangu a datblygu dros y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn yn adlewyrchu'r newidiadau mewn fferylliaeth, megis y defnydd helaethach o dechnoleg a chynnydd yn yr ystod o wasanaethau y mae fferyllfeydd yn eu cynnig. Ym mis Ebrill 2019, aethon ni ati i gasglu a dadansoddi adborth ynghylch a ddylen ni barhau i osod gofynion ar gyfer addysg a hyfforddiant i staff cymorth fferyllol – ac os felly, beth ddylai'r gofynion hyn fod.

Roedd yr adborth a gawson ni gan y sector fferyllol, staff cymorth fferyllol, gweithwyr fferyllol proffesiynol, aelodau o'r cyhoedd, a darparwyr addysg a hyfforddiant yn amlwg yn cefnogi'r syniad y dylen ni barhau i osod safonau ar gyfer hyfforddiant staff cymorth.

Roedd y rhan fwyaf o'r bobl a ymatebodd yn cytuno, drwy bennu gofynion rheoleiddio ar gyfer addysg a hyfforddiant staff cymorth, ac yna gwirio bod y rhain yn cael eu cyrraedd, ein bod yn rhoi sicrwydd bod pawb yn y tîm fferyllol yn derbyn yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt i wneud y rolau pwysig hyn yn ddiogel ac yn effeithiol.

Yn seiliedig ar yr hyn a glywon ni, rydyn ni wedi datblygu casgliad diwygiedig o ofynion addysg a hyfforddiant. Mae'r rhain yn adlewyrchu datblygiadau mewn ymarfer fferyllol ac yn y gweithlu ers i'r gofynion gael eu cyflwyno gyntaf yn 2005. Mae'r gofynion newydd hyn yn cynnwys sgiliau craidd y mae angen i bob aelod o'r staff cymorth fferyllol feddu arnynt, gan gynnwys sgiliau cyfathrebu ar gyfer gofal sydd â'r claf yn ganolog iddo.

Rhoddwyd y cynigion hyn ar brawf gydag aelodau o'n panel achredu a chydnabod a'n tîm arolygu. Gweithwyr fferyllol proffesiynol yw'r rhain sydd â phrofiad uniongyrchol o weithio gyda staff cymorth fferyllol a'u goruchwylio.

Ym mis Rhagfyr 2019, cytunodd ein cyngor llywodraethu ar y gofynion addysg a hyfforddiant newydd, a'r deilliannau dysgu, ar gyfer pob rôl cymorth fferyllol. Gynt, dim ond cynorthwywyr cownteri meddyginiaethau a chynorthwywyr cyflenwi roedd y gofynion ar waith ar eu cyfer. Rydyn ni bellach wedi ehangu'r gofynion hyn i gynnwys staff cymorth sy'n ymgymryd ag amrywiaeth o rolau. Mae'r rhain yn cynnwys: dosbarthu a chyflenwi meddyginiaethau a dyfeisiau meddygol, a rhoi cyngor ar sut i'w defnyddio, a helpu i ddarparu gwasanaethau fferyllol.

Bydd y gofynion terfynol ar gyfer addysg a hyfforddiant staff cymorth fferyllol, a chanllawiau ategol i ddarparwyr cyrsiau a chyflogwyr, yn cael eu cyhoeddi yn 2020/21.

### Ymateb i COVID-19 mewn addysg a hyfforddiant fferyllol

Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar addysg a hyfforddiant fferyllol. Rydyn ni'n gweithio gyda darparwyr addysg i'w cefnogi i addysgu ac asesu cyrsiau'n effeithiol gan ddefnyddio dulliau newydd, er mwyn i fyfyrwyr allu parhau â'u haddysg. Cafodd ymweliadau achredu hefyd eu gohirio, neu eu cynnal o bell, o fis Mawrth ymlaen.

Mae fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol cyn-gofrestru dan hyfforddiant wedi chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau fferyllol mewn amgylchiadau eithriadol o heriol.

Rydyn ni'n gweithio gyda chyflogwyr, cyrff proffesiynol, sefydliadau sy'n cynrychioli myfyrwyr, a chyrff addysg a hyfforddiant fferyllol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, i helpu i sicrhau bod fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol cyn-gofrestru yn gallu parhau i hyfforddi a pharatoi ar gyfer cofrestru yn ystod y pandemig.

## Cyflwyno sgwrs gyda chymar proffesiynol a darn adfyfyriol i'r broses ailddilysu

Bob blwyddyn pan fydd cofrestryddion yn adnewyddu eu cofrestriad, rydyn ni nawr yn disgwyl iddyn nhw gynnal a chofnodi sgwrs gyda chymar proffesiynol a darn adfyfyriol yn rhan o'u hailddilysu.

Gweithwyr fferyllol proffesiynol a oedd i fod i adnewyddu eu cofrestriad erbyn 31 Hydref 2019 oedd y grŵp cyntaf i gyflwyno cofnodion o'r fath.

**Gofynion ailddilysu**

Disgwyliwn i weithwyr fferyllol proffesiynol gynnal, cofnodi a chyflwyno chwe chofnod ailddilysu pan fyddant yn adnewyddu eu cofrestriad:

- pedwar cofnod DPP, y mae'n rhaid i o leiaf ddau ohonynt fod yn weithgareddau dysgu wedi eu cynllunio
- un sgwrs gyda chymar proffesiynol
- un darn adfyfyriol

**Darllen mwy yn y fframwaith ailddilysu**

### Manteision ymarfer adfyfyriol

Ym mis Gorffennaf 2019, fe ymunon ni ag wyth o reoleiddwyr gofal iechyd eraill i bwysleisio manteision a phwysigrwydd arfer adfyfyriol da ymhlith gweithwyr proffesiynol yn y sector gofal iechyd. Nod ein gofynion ailddilysu yw rhoi cyfle

i weithwyr fferyllol proffesiynol adfyfyrio ar eu hymarfer, yn unigol a gyda'u cyfoedion.

Mae **sgwrs gyda chymar proffesiynol** yn weithgaredd dysgu a datblygu sy'n annog gweithwyr proffesiynol i ymgysylltu ag eraill wrth adfyfyrio ar eu dysgu a'u hymarfer. Mae ymchwil wedi dangos y gall barn rhywun arall helpu gweithwyr proffesiynol i adfyfyrio ar arferion gwaith a lleihau'r perygl o fod yn broffesiynol ynysig. Dylai'r trafodaethau hyn gael eu cynllunio i gynorthwyo datblygiad gweithiwr proffesiynol drwy drafod agored a gonest gyda chyfoedion dibynadwy.

Mae adfyfyrio yn rhan greiddiol o ailddilysu ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol. Diben y **darn adfyfyriol** yw annog gweithwyr proffesiynol i ystyried sut maen nw'n cyrraedd safonau penodol yn eu gwaith, a sut mae eu gwaith wedi bod o fudd i ddefnyddwyr y gwasanaethau a ddarparant.

## Cynorthwyo gweithwyr fferyllol proffesiynol i gwblhau ailddilysu

Rydyn ni wedi parhau i gefnogi gweithwyr fferyllol proffesiynol i ddeall y gofynion ailddilysu a chwblhau eu holl gofnodion ailddilysu. Rydyn ni wedi siarad mewn nifer fawr o ddigwyddiadau, gan gyrraedd dros 4,500 o weithwyr fferyllol proffesiynol. Rydyn ni hefyd wedi cyhoeddi amrywiol adnoddau, gan gynnwys enghreifftiau o gofnodion, a chanllawiau i helpu pobl i gwblhau sgyrsiau gyda chyfoedion a darnau adfyfyriol.

## Ein hymateb i ailddilysu yn ystod COVID-19

**Rydyn ni wedi gohirio dyddiad y cyflwyniad ailddilysu** ar gyfer aelodau cofrestredig oedd i fod i gyflwyno rhwng 20 Mawrth a 31 Awst 2020 (yn gynwysedig). Gwnaethon ni'r penderfyniad hwn oherwydd pandemig COVID-19 a'r heriau a'r pwysau roedd hyn yn eu rhoi ar y sector fferyllol.

Ni fydd yn rhaid i aelodau cofrestredig gyda dyddiad cyflwyno rhwng Mawrth ac Awst 2020 gyflwyno eu pedwar cofnod CPD, un drafodaeth gan gyfoedion ac un darn adfyfyriol ar y dyddiad cyflwyno fu'n ddisgwyliedig gynt.

Byddwn yn adolygu'r sefyllfa ar gyfer aelodau cofrestredig oedd i fod i gyflwyno eu cofnodion ailddilysu ar ôl 31 Awst 2020. Rydyn ni'n cyfathrebu ag aelodau cofrestredig a rhanddeiliaid yn aml ar y pwnc hwn drwy e-bost, cylchlythyrau, y cyfryngau cymdeithasol **a'n tudalen Holi ac Ateb COVID-19.**

## Gwella'r ffordd rydyn ni’n gweithio

### Yn ystod 2019/20 rydyn ni wedi parhau i adeiladu ar ein hymrwymiad i wella ein ffordd o weithio.

Eleni, cytunon ni ar weledigaeth ddeng mlynedd o ran gofal fferyllol diogel ac effeithiol wrth galon cymunedau iachach.

Mae Gweledigaeth 2030 yn egluro ein hymrwymiad i:

- fod yn rheoleiddiwr annibynnol o ansawdd da ar gyfer y cyhoedd – gosod safonau ar gyfer yr ansawdd a ddisgwylir ar gyfer pob agwedd ar ymarfer fferyllol ym mhob lleoliad – ac wrth wneud hynny, gwella canlyniadau iechyd i'r cyhoedd
- ymarfer dull rhagweledol a chymesur o reoleiddio – gweithredu cyn i broblemau godi’n y lle cyntaf a cheisio atal neu leihau eu heffaith
- gweithredu fel sefydliad proffesiynol a darbodus - gan weithio mewn ffordd wahanol a gallu addasu'n gyflym i newidiadau mewn fferylliaeth ac yn anghenion y cyhoedd yn y dyfodol, gyda ffocws ar weithio'n agos ag eraill

Bydd hyn yn llywio ein cynllunio tymor hirach ar gyfer y deng mlynedd nesaf.

Byddwn ni’n rhoi mwy o fanylion ynghylch sut y byddwn ni’n gwireddu’r weledigaeth hon a'r canlyniadau a ddisgwyliwn. Byddwn yn cyhoeddi dau gynllun strategol, a fydd yn cwmpasu pum mlynedd cyntaf y cyfnod ac ail bum mlynedd y cyfnod, ynghyd â strategaethau a chynlluniau busnes ategol.

Bydd yr ymagwedd integredig hon tuag at fusnes a chyllid yn ein helpu i sicrhau ein bod yn parhau'n berthnasol ac yn effeithiol, yn gallu parhau i ddatblygu ein dull rheoleiddio, ac yn addas i gyflawni ein nodau yn llwyddiannus.

I’n helpu i gynllunio a chyflawni sefyllfa ariannol gynaliadwy, rydyn ni wedi parhau i weithio ar strategaeth ariannol tymor hirach. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys adolygiad cynhwysfawr ar gostau a strwythurau ffioedd, ac adolygiad ar lety.

Rydyn ni wedi gwneud mwy o waith ar ein strwythur sefydliadol ac wedi parhau â'n rhaglen newid diwylliannol, gan sicrhau bod y rhain yn unol â'n gweledigaeth a'n strategaethau sefydliadol allweddol. Rydyn ni’n parhau i fonitro ac adolygu ein cynnydd ar y ddau ddarn hyn o waith, gan gynnwys drwy arolygon staff.

Rydyn ni wedi parhau gyda rhaglen fawr i wella'r gwasanaethau ar-lein rydyn ni’n eu darparu ar gyfer ein haelodau cofrestredig presennol, ac ar gyfer y bobl sy'n bwriadu cofrestru gyda ni. Ym mis Mai 2019 lansiwyd cynllun ymgeisio ar-lein gennym ar gyfer hyfforddiant cyn-gofrestru, yn barod ar gyfer dechrau blwyddyn hyfforddi 2019/20. Ac ym mis Ionawr 2020 lansiwyd cynllun ymgeisio ar-lein gennym ar gyfer technegwyr fferyllol.

Erbyn hyn, gall adolygwyr hefyd adolygu cofnodion ailddilysu ar-lein, gan roi adborth i aelodau cofrestredig drwy system myGPhC.

Rydyn ni wedi casglu ynghyd y data rydyn ni wedi ei gasglu drwy ein gwaith rheoleiddio ac o

ffynonellau allanol wrth i ni barhau i weithio i wella:

- ansawdd a chysondeb y data a ddelir gennym
- ein seilwaith data, ac
- effeithlonrwydd ein gallu i adrodd

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethon ni barhau i fonitro ein costau gweithredu. Rydyn ni wedi defnyddio mecanweithiau sy'n bodoli eisoes pan yn bosibl, fel ein proses gynllunio a chyllidebu, i helpu i sicrhau ein bod yn cynnal ac yn gwella ein heffeithlonrwydd a'n heffeithiolrwydd. Mae hyn wedi ein galluogi i gyrraedd ein targed arbedion strwythurol o 3% ar gyfer y flwyddyn. Bydd y Pwyllgor Cyllid a Chynllunio yn parhau i adrodd i'n cyngor ar ein cynnydd.

### Gweithio'n wahanol yn ystod pandemig COVID-19

Ym mis Mawrth, bu'n rhaid i ni gau ein swyddfeydd mewn ymateb i bandemig COVID-19 a dechreuodd pob un o'n staff swyddfa weithio o gartref. Cyflwynodd hyn nifer o heriau i ni, ond defnyddion ni dechnoleg i'n helpu i gadw ein gwasanaethau ar waith i safon dda o wydnwch a chynhyrchiant. Roedd hyn yn cynnwys cynnal gwrandawiadau o bell gan ddefnyddio fideogynadledda ar ôl cynllun peilot cychwynnol, a rheoli ein canolfan cyswllt cwsmeriaid o bell.

## Integreiddio cydraddoldeb ac amrywiaeth i'r ffordd rydyn ni’n gweithio

Yn 2019/20 canolbwyntiwyd ar fod yn fwy strategol, sicrhau'r canlyniadau gorau posibl a mesur effaith ein gwaith yn y maes hwn. Rydyn ni wedi parhau i gydymffurfio â dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus fel rheoleiddiwr ac i symud ein hagenda ar gyfer cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewnol yn ei flaen.

Ein nod yw sicrhau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (CAC) yn ein holl waith gyda:

- chleifion a’r cyhoedd
- pobl sy'n bwriadu bod yn weithwyr fferyllol proffesiynol a'r rhai sy'n gyfrifol am eu haddysg a'u datblygiad
- gweithwyr fferyllol proffesiynol ar ein cofrestr
- fferyllfeydd
- ein staff a’n gweithwyr cysylltiol ein hunain

### Datblygu strategaeth CAC wedi'i diweddaru

Mae ein hymrwymiad i CAC yn parhau ac mae hwn yn faes gwaith sy'n tyfu. Ein huchelgais yw gweithredu gydag integriti a thegwch, gan ystyried buddiannau pawb drwy ein gweithgareddau rheoleiddio a chorfforaethol. Ar yr un pryd, byddwn yn darparu arweiniad ac

yn dylanwadu ar arfer da ymhob maes fferylliaeth a gofal iechyd yn ehangach.

### Hyfforddiant

Rydyn ni wedi cynnal hyfforddiant ar:

- ymwybyddiaeth anabledd ar gyfer staff
- rhagfarn anymwybodol ar gyfer gweithwyr cysylltiol a phartneriaid
- ein cyfrifoldebau o dan y Deddfau Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar gyfer rheolwyr a phenaethiaid gwasanaeth.
- cymorth cyntaf iechyd meddwl ar gyfer ail grŵp o staff oedd â diddordeb (sydd bellach yn golygu bod gennym 14 o swyddogion cymorth cyntaf iechyd meddwl)

### Rhaglenni rhwydweithiau staff

Mae gan y rhwydwaith Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) ddau gyd-gadeirydd. Mae'n agored i bob aelod staff sy'n nodi eu bod yn ddu, yn Asiaidd neu'n ethnig amrywiol, ac sydd am gefnogi cydraddoldeb hil fel cynghreiriaid. Mae nodau ac amcanion yn cynnwys:

- herio ac ymdrin â gwahaniaethu a stereoteipio
- cynnal ymgyrchoedd a digwyddiadau codi ymwybyddiaeth perthnasol, ac
- adeiladu enw da fel rhanddeiliad cydnabyddedig ar gyfer cyfathrebu ac ymgynghori o fewn y CFfC, yn ogystal â gyda phartïon allanol

Eleni mae'r rhwydwaith wedi trefnu mentrau ar Fis Hanes Pobl Dduon, Diwrnod Cryman-gell y Byd, ac arweinyddiaeth a chynrychiolaeth.

Mae gan y rhwydwaith menywod ddau gyd-gadeirydd ac mae'n agored i bob aelod o staff sy'n uniaethu fel menyw. Mae'n rhoi llwyfan i rwydweithio a rhannu profiadau mewn amgylchedd anfeirniadol o gyd-gymorth. Mae nodau ac amcanion yn cynnwys:

- herio a mynd i'r afael â'r stereoteipio, y rhwystrau a'r gwahaniaethu y gall menywod eu hwynebu yn eu bywydau preifat a gwaith
- ymgorffori safbwyntiau rhyngblethol, a
- chefnogi'r CFfC i fynd i'r afael â materion fel y bwlch cyflog rhwng y rhywiau

Eleni mae'r rhwydwaith wedi trefnu codi ymwybyddiaeth ynghylch cam-drin domestig, rhyngblethedd a Diwrnod Rhyngwladol y Menywod.

*Sut y gall pobl fod o dan anfantais am nifer o resymau cronnol a gorgyffyrddol, gan gynnwys hil, dosbarth, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol ac yn y blaen, sy'n creu ffurfiau lluosog o wahaniaethu.

### Cyswllt rhyng-reoleiddiol

Rydym yn aelod o dri grŵp rhyng-reoleiddiol: Inter-Reg LGBT+, Inter-Reg BAME Elevation (a sefydlwyd yn 2019), a Chyd-fforwm CAC y Rheoleiddwyr Gofal Iechyd.

Mae'r grwpiau rhyng-reoleiddiol hyn yn cwrdd bob chwarter ac yn cynnwys cyd-gadeiryddion a chynrychiolwyr rhwydweithiau, yn ogystal â phobl sy'n cyflawni eu swyddogaethau CAC perthnasol. Maen nhw'n rhannu cyngor ac arfer da, ac yn eu cefnogi ei gilydd o ran gwaith creu ac adolygu polisïau, cynllunio gweithgareddau a thrafod y datblygiadau diweddaraf o ran arferion CAC.

Yn 2019, a oedd yn nodi 50 mlynedd ers terfysgoedd Stonewall, ymunodd y CFfC â'r parêd yn y London Jubilee Pride, ynghyd â’r

Cyngor Bydwreigiaeth Cenedlaethol a’r Cyngor Meddygol Cyffredinol.

### Mentrau eraill

Mae gwaith CAC arall yn ystod y flwyddyn wedi cynnwys:

- sicrwydd ansawdd ar ddadansoddiadau effaith ar gydraddoldeb polisïau a gweithdrefnau newydd
- ymgyrchoedd cyfathrebu mewnol a chodi ymwybyddiaeth i gyd-fynd â diwrnodau rhyngwladol CAC perthnasol
- cymorth a chyngor cynhwysfawr i'r busnes ar addysg ac ailddilysu, data a mewnwelediad, gwasanaeth cwsmeriaid, addasrwydd i ymarfer, llywodraethiant ac adnoddau dynol
- aelodaeth barhaus o Stonewall a'r Fforwm Anabledd Busnes

### Cyfathrebu â'r cyhoedd Cymraeg eu hiaith

Rydyn ni wedi ymrwymo i sicrhau bod aelodau o'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg yn gallu deall a chymryd rhan yn ein gwaith, fel y nodir yn ein **Cynllun iaith Gymraeg**.

Yn ystod 2019/20, rydyn ni wedi parhau i gyhoeddi ein dogfennau allweddol yn y Gymraeg, gan gynnwys safonau, canllawiau a'n canllaw i'r cyhoedd ar yr hyn i'w ddisgwyl wrth ymweld â fferyllfa. Rydym wedi postio ar y cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg, er mwyn helpu i hyrwyddo'r gwaith hwn i'r cyhoedd Cymraeg eu hiaith.

Rydyn ni wedi parhau i ddefnyddio ReciteMe, sef teclyn hygyrchedd sy'n cynnwys cyfieithiad Cymraeg awtomataidd ar ein gwefan, ac rydyn ni wedi ei ychwanegu at ein gwefan newydd sy’n cyhoeddi adroddiadau arolygu.

### Safonau’r Gymraeg

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 wedi diweddaru'r fframwaith cyfreithiol sy'n ymwneud â defnyddio'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r Mesur yn darparu ar gyfer datblygu safonau ymddygiad o ran y Gymraeg. Bydd y rhain yn graddol ddisodli'r system bresennol o gynlluniau iaith Gymraeg. Rydyn ni, ynghyd â rheoleiddwyr gofal iechyd eraill, wedi parhau i drafod cwmpas a graddau'r safonau a fydd yn berthnasol i ni gyda Llywodraeth Cymru.

# Edrych tua'r dyfodol

Rydyn ni ym mlwyddyn gyntaf ein cynllun strategol ar gyfer 2020–25. Mae'r cynllun yn nodi'r hyn y byddwn yn ei wneud yn ystod y pum mlynedd nesaf i gyflawni ein gweledigaeth ddeng mlynedd am ofal fferyllol diogel ac effeithiol wrth galon cymunedau iachach.

Bydd ein gwaith dros y flwyddyn nesaf yn cael ei drefnu o dan y pum nod strategol canlynol, a nodir yn y cynllun.

1 Cyflwyno fframwaith safonau y gellir ei addasu, ac sy'n diwallu anghenion sy'n newid yn gyflym gan y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol.

2 Sicrhau rheoleiddio effeithiol, cyson a theg.

3 Ysgogi gwelliannau mewn gofal fferyllol drwy foderneiddio'r ffordd rydyn ni'n rheoleiddio addysg a hyfforddiant.

4 Symud y cydbwysedd tuag at ddulliau rheoleiddio fferyllol sy'n fwy rhagweledol a chymesur ac sydd wedi'u teilwra.


5 Gwella ein galluoedd a'n seilwaith i'n helpu i wireddu ein gweledigaeth.

Bydd angen i ni adolygu ein gweledigaeth a'n cynllun strategol yn agos gydol y flwyddyn nesaf ac wedi hynny, ac ailflaenoriaethu ein gwaith pan fydd angen, er mwyn sicrhau ein bod yn:

- addasu'n gyflym i'r heriau a ddisgrifir, gan gynnwys COVID-19, a
- helpu i sicrhau arloesedd cyfrifol sy'n canolbwyntio ar sicrhau deilliannau gwell a diogel i gleifion

# Adroddiad addasrwydd i ymarfer blynyddol

## Sut y daeth pryderon i law yn 2019/20




**Cyfanswm 2,985**

### Beth yw 'addasrwydd i ymarfer'?

Addasrwydd i ymarfer yw pan fydd gan rywun y sgiliau, y wybodaeth, y cymeriad a'r iechyd i wneud ei waith yn ddiogel ac yn effeithiol. Efallai na fydd gweithiwr proffesiynol fferyllol yn addas i ymarfer am nifer o resymau, er enghraifft:

- eu hymddygiad yn rhoi cleifion mewn perygl
- yn ymarfer mewn ffordd anniogel, neu
- gallai eu hiechyd fod yn effeithio ar eu gallu i lunio barn ddiogel am eu cleifion

Mae ymdrin yn effeithiol â phryderon ynghylch addasrwydd i ymarfer wrth wraidd ein hymrwymiad i ddiogelu cleifion a'r cyhoedd, a chynnal ffydd y cyhoedd mewn fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol.

Os ydych chi'n poeni nad yw fferyllydd neu dechnegydd fferyllol sydd wedi cofrestru gyda ni yn addas i ymarfer, gallwch **adrodd am eich pryder wrthon ni**.

Gallwch ddarllen mwy am **y ffordd rydyn ni'n ymdrin â phryderon addasrwydd i ymarfer** ar ein gwefan.

## Sut y deliwn gyda phryderon

Pan fyddwn yn derbyn pryder am addasrwydd rhywun i ymarfer rydyn ni’n gwirio a ydynt ar ein cofrestr ac yn asesu a ddylai'r pryder gael ymchwiliad llawn. Mae'r gwiriad cyntaf hwn yn ein helpu i benderfynu ar yr hyn ddylai ddigwydd nesaf. Mae'n bosibl y bydd y pryder hwnnw'n cael ei gau ar yr adeg honno oherwydd nad yw o fewn ein pwerau i ddelio ag ef. Pan mai hyn fydd yr achos, byddwn yn cyfeirio pobl at reoleiddwyr eraill a allai ddelio â’r pryder.

Os gallwn fwrw ymlaen, byddwn yn dechrau ymchwiliad. Fel arfer, bydd hyn yn cael ei arwain gan weithiwr achos neu arolygydd. Yn dilyn yr ymchwiliad, gallen ni benderfynu:

- cyhoeddi llythyr yn cynnwys cyfarwyddyd ar gyfer gwaith y gweithiwr proffesiynol dan sylw yn y dyfodol
- creu cytundeb gwirfoddol gyda'r aelod cofrestredig i reoli'r pryder
- argymell bod y dystiolaeth yn cael ei hystyried gan bwyllgor ymchwilio, neu
- gyda’r pryderon mwyaf difrifol, eu cyfeirio'n uniongyrchol at y pwyllgor addasrwydd i ymarfer

Mae llawer o bryderon yn cael eu cau ar y cam cyntaf hwn, yn aml gyda chanllawiau sy'n esbonio i’r gweithiwr fferyllol proffesiynol dan sylw yr hyn sydd angen ei ddysgu o'r pryderon a fynegwyd. Dim ond y pryderon mwyaf difrifol sy'n cael eu cyfeirio at y pwyllgor ymchwilio neu sy’n cyrraedd y pwyllgor addasrwydd i ymarfer.

Gall y Pwyllgor Ymchwilio (PY), sy'n cwrdd yn breifat, benderfynu:

- peidio â gweithredu
- cytuno ar 'addewidion' gydag aelod cofrestredig (Addewidion gan yr aelod ynghylch pethau y byddan nhw yn eu gwneud neu’n peidio â’u gwneud yn y dyfodol, a gallant gynnwys cyfyngu

  ar eu hymarfer neu ymddygiad neu ymrwymiad i ymgymryd â goruchwyliaeth neu ailhyfforddiant)
- cyhoeddi llythyr o gyngor
- roi rhybudd, neu
- gyfeirio'r achos at bwyllgor addasrwydd i ymarfer ar gyfer gwrandawiad

Mae'r pwyllgor addasrwydd i ymarfer (PAY) yn banel sy'n gweithredu'n annibynnol ar y CFfC, ac fel arfer mae'n cynnwys tri aelod.


Mae'r PAY, sydd fel arfer yn cynnal gwrandawiadau yn gyhoeddus, yn penderfynu a yw gweithiwr fferyllol yn addas i ymarfer.

Os bydd yn canfod nad yw’n addas i ymarfer, gall:

- roi rhybudd
- gosod amodau, neu addewidion, sy'n gosod cyfyngiadau am gyfnod o hyd at dair blynedd ar sut y gall yr aelod ymarfer
- eu hatal dros dro o'r gofrestr am gyfnod o hyd at 12 mis, neu
- eu dileu o’r gofrestr

Os byddwn yn derbyn pryder pan fydd ymddygiad neu ymarfer gweithiwr fferyllol yn peri risg barhaus ddifrifol i ddiogelwch cleifion, neu os oes ganddynt gyflwr iechyd sy'n golygu eu bod yn risg i'w hunain neu'r cyhoedd, gallwn wneud cais i'r pwyllgor addasrwydd i ymarfer am 'orchymyn dros dro'. Mae gorchmynion dros dro yn caniatáu i gofrestriad gweithiwr fferyllol gael ei atal dros dro, neu ei wneud yn ddarostyngedig i amodau, tra byddwn yn cynnal ein hymchwiliad.

## Canlyniadau achosion a gaewyd yn 2019/20




*Mae'r categori 'dim gweithredu pellach' yn cynnwys achosion a ystyriwyd ym mhob cam o'r broses AY, ac eithrio adeg brysbennu*.

## Delio gyda phryderon yn 2019/20

### Nifer y pryderon a gawsom

Eleni, cynyddodd nifer y pryderon a fynegwyd wrthon ni. Yn 2019/20, derbynion ni 2985 o bryderon, 311 mwy nag yn 2018/19 a 656 mwy nag yn 2017/18. Mae'n anodd rhoi rhesymau dros y cynnydd gan fod llawer o resymau posibl ac ni fu cynnydd nodedig mewn mathau unigol o bryderon.

### Pwy fynegodd bryderon?

Bu rhai newidiadau bach yn ffynonellau'r pryderon. Parhaodd aelodau'r cyhoedd i fynegi dros hanner y pryderon, ac mae'r nifer wedi cynyddu ychydig ers y llynedd. Mae pryderon gan gyflogwyr hefyd wedi cynyddu. Mae pob ffynhonnell arall wedi gostwng, gyda'r gostyngiad mwyaf nodedig mewn pryderon gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill.

### Canlyniadau'r pryderon

Mae canlyniad adolygiad yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar ein perfformiad o ran y safonau addasrwydd i ymarfer yn cael ei drafod yn y Datganiad Llywodraethiant yn yr adroddiad hwn.

### Canlyniadau brysbennu

Caewyd 1405 o bryderon yn ystod y cam hwn yn 2019/2020 (47% o'r pryderon a fynegwyd). Mae hyn yn cymharu â 1,027 yn 2018/19 (39% o'r pryderon a fynegwyd) a 791 yn 2017/18 (34% o'r

holl bryderon a fynegwyd). Bu i’r nifer o bryderon a gaewyd heb weithredu pellach ddyblu bron. Cynyddodd y rhain o 567 i ychydig dros 1000 a chynyddodd y pryderon a gaewyd gyda chyngor ar y cam hwn gan 50%, gan gynyddu o 39 i 81.

Tra’n bod ni’n cau mwy o bryderon heb weithredu pellach, nid yw'r rhan fwyaf o'r pryderon ychwanegol hyn yn ymwneud â diogelwch cleifion ac nid ydynt yn codi materion rheoleiddio y gallwn ni ddelio â nhw. Fodd bynnag, rydyn ni’n cadw cofnod o'r wybodaeth. Defnyddir y wybodaeth hon i gynllunio ein rhaglen arolygu a gallwn ei hystyried os byddwn yn derbyn rhagor o bryderon am weithwyr proffesiynol neu leoliadau penodol.

Yn ystod chwarter olaf 2018/19, cyflwynon ni fwy o oruchwyliaeth gan uwch swyddogion dros y ffordd roedden ni’n rheoli pryderon wrth frysbennu. Gwerthuswyd y newid hwn yn 2019/20 a chanfuwyd ei fod wedi gwella ein prosesau penderfynu, gan sicrhau ein bod yn defnyddio'r ystod lawn o opsiynau i ddod ag achosion i ben yn y modd cywir. Mae'r sicrwydd ychwanegol yn golygu y caiff mwy o bryderon eu cwblhau ar y cam hwn pan yn briodol, gan gyfrannu at y cynnydd mewn pryderon a gaewyd yn ystod y cam cyntaf eleni. Byddwn yn parhau i ddadansoddi’r data i chwilio am dueddiadau a deall natur y pryderon rydyn ni’n eu cau’n gynnar. Byddwn yn rhannu'r wybodaeth yn ehangach i helpu pobl sydd am fynegi pryder i ddeall beth gallwn ni a beth na allwn ni ddelio ag ef.

## Canlyniadau ymchwiliadau

Mae canlyniadau ein hymchwiliadau'n cyd-fynd i bob pwrpas â'r rhai a adroddwyd gennym y llynedd. Yn dilyn ymchwiliad, fe wnaethon ni gau 705 o achosion gyda chyfarwyddyd a 761 heb gamau pellach. Mae hyn yn cymharu â 736 o achosion wedi'u cau gyda chyfarwyddyd a 765 wedi'u cau heb gamau pellach yn 2018/19.

## Canlyniadau pwyllgor ymchwilio ac addasrwydd i ymarfer

Bu gostyngiad yn nifer y pryderon a gyfeiriwyd at bwyllgor ymchwilio ac addasrwydd i ymarfer. Cyfeiriwyd cyfanswm o 76 o bryderon at bwyllgorau annibynnol yn 2019/20, sy'n ostyngiad sylweddol ar y 125 a gyfeiriwyd yn 2018/19.

Gostyngodd cyfanswm nifer y pryderon a gafodd eu cau mewn pwyllgor ymchwilio o 62 yn 2018/19 i 34 yn 2019/20. Roedd nifer y pryderon lle y cyhoeddodd pwyllgor ymchwilio gyngor neu addewidion yn debyg i'r flwyddyn flaenorol. Ond bu gostyngiad yn nifer yr achosion a ddaeth i ben gyda rhybudd, o 40 yn 2018/19 i 22 yn 2019/20.

Gostyngodd cyfanswm nifer y gwrandawiadau o 63 yn 2018/19 i 40 yn 2019/20. Mae canlyniadau mewn pwyllgor addasrwydd i ymarfer ar gyfer dileu, rhybuddio, ac amodau yn debyg i'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, bu gostyngiad yn nifer yr achosion a ddaeth i ben drwy atal dros dro o'r gofrestr – o 37 yn 2018/19 i 17 yn 2019/20.

## Ymateb i COVID-19 mewn addasrwydd i ymarfer

Rhoddodd argyfwng COVID-19 bwysau sylweddol ar wasanaethau iechyd i ddarparu'r lefel angenrheidiol o adnoddau i ofalu am y rhai â'r angen mwyaf. Roedd gan hyn, ynghyd â'r cyfyngiadau a roddwyd ar waith i ymladd COVID-19, oblygiadau o ran y ffordd y cyflawnon ni ein gweithgareddau rheoleiddio, gan gynnwys addasrwydd i ymarfer. Bu'n rhaid bod yn fwy hyblyg wrth ymchwilio i bryderon a dod i gasgliadau, a chysylltu â gweithwyr fferyllol proffesiynol. Cynhaliwyd rhai gwrandawiadau o bell. Symudodd ein harolygwyr i ffwrdd o gynnal arolygiadau rheolaidd a chanolbwyntio ar ddarparu rôl fwy cefnogol i wasanaethau rheng flaen. Tuag at ddiwedd y trydydd chwarter bu cynnydd sylweddol yn y pryderon, yn rhannol o leiaf oherwydd materion yn ymwneud â COVID-19.

### Sut mae cael gwybod am wrandawiadau addasrwydd i ymarfer?

Fel arfer, cynhelir gwrandawiadau'r pwyllgor addasrwydd i ymarfer yn gyhoeddus yn ein Canolfan Gwrandawiadau Fferyllol ac mae croeso i aelodau o'r cyhoedd ddod.

Mae rhai gwrandawiadau pwyllgor addasrwydd i ymarfer yn cael eu cynnal yn breifat os, er enghraifft, oes materion yn ymwneud ag iechyd cofrestrydd.

Gallwch **ddarllen pa wrandawiadau sydd ar y gweill**, ac am **benderfyniadau mae'r pwyllgor addasrwydd i ymarfer wedi'u gwneud** ar ein gwefan.

# Y gofynion adrodd sydd arnon ni

O dan Orchymyn Fferyllol 2010 mae rhai eitemau y mae'n rhaid inni adrodd arnynt i ddangos ein hatebolrwydd i'r senedd.

Rhaid i ni gyhoeddi adroddiadau a chyfrifon blynyddol, a'u cyflwyno i Swyddfaa'r Cyfrin Gyngor i'w gosod yn seneddau'r DU a'r Alban.

Rhaid i ni gyhoeddi:

- adroddiad blynyddol ar sut rydyn ni wedi cyflawni ein gwaith, gan gynnwys y trefniadau sydd gennym i sicrhau ein bod yn dilyn arferion da mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth
- adroddiad ystadegol sy'n dangos effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ein trefniadau i amddiffyn aelodau o'r cyhoedd rhag aelodau cofrestredig y mae nam ar eu haddasrwydd i ymarfer. Mae'r adroddiad yn cynnwys disgrifiad o'r trefniadau a sylwadau'r Cyngor ar yr adroddiad
- cyfrifon blynyddol, ar ffurf a bennir gan y Cyfrin Gyngor
- adroddiad ein harchwilwyr allanol ar ein cyfrifon

Cyhoeddir yr adroddiad hwn i fodloni'r gofynion hyn.

Mae'r Cyfrin Gyngor wedi cyhoeddi 'penderfyniad cyfrifon', sy'n nodi'r hyn y mae'n rhaid i ni ei gynnwys wrth baratoi ein cyfrifon blynyddol. Mae'r penderfyniad ynghylch cyfrifon yn atodiad 1 ein datganiadau ariannol. Mae ein cyfrifon wedi'u cynhyrchu yn unol â'r penderfyniad hwn.

Fel corff a ariennir gan ffioedd cofrestryddion ac sy'n annibynnol ar y llywodraeth, nid yw canllawiau’r trysorlys ar reoli arian cyhoeddus ar waith i ni. Ond rydyn ni’n dymuno dilyn arfer gorau, o ran bod yn dryloyw ac o ran cyfathrebu ag aelodau'r cyhoedd, sef ein prif randdeiliaid. Felly, rydyn ni wedi ceisio sicrhau bod ein gwaith adrodd mor glir a syml â phosibl, gyda chyn lleied â phosibl o ddyblygu.

Rydyn ni wedi darparu datganiad llywodraethiant gan y prif weithredwr a chofrestrydd. Mae hyn yn cynnwys y systemau sydd gennym i gefnogi strategaeth ac amcanion y Cyngor, tra'n diogelu asedau'r sefydliad. Mae'r datganiad hefyd yn cynnwys adolygiad y prif weithredwr ar effeithiolrwydd ein systemau rheoli mewnol.

# Ein dull llywodraethu

Y Cyngor yw corff llywodraethu'r CFfC ac fe'i penodir gan y Cyfrin Gyngor. Mae'n pennu cyfeiriad ac amcanion strategol y sefydliad, yn unol â'i amcanion statudol.

Mae'n monitro perfformiad y sefydliad, a pherfformiad yr uwch grŵp arwain. Mae hefyd yn diogelu asedau'r sefydliad ac yn sicrhau bod ei weithdrefnau ariannol yn cael eu cyflawni’n briodol.

Mae gan Gyngor y CFfC 14 o aelodau: saith aelod lleyg a saith aelod cofrestredig. Mae o leiaf un aelod yn byw neu'n gweithio ymhob un o’r tair gwlad, Cymru, Lloegr a'r Alban.

Eleni, gorffennodd tri o aelodau ein cyngor eu hail dymor ar 31 Mawrth 2020. Hoffem ddiolch i Alan Kershaw, Digby Emson OBE (a orffennodd hefyd fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg) ac Evelyn McPhail am eu cyfraniad.

Cynhaliwyd proses recriwtio gennym yn ystod hydref 2019 a phenodwyd tri aelod newydd i'r cyngor gan y Cyfrin Gyngor. Dechreuodd yr aelodau newydd, Rose Marie Parr, Selina Ullah a Yousaf Ahmad, eu tymor ar 1 Ebrill 2020.

Mae'r Cyngor wedi cytuno ar strwythur cyflogau a threuliau ar gyfer ei aelodau sy'n cyd-fynd â 'safonau mewn bywyd cyhoeddus' Pwyllgor Nolan. Mae'n osgoi nodweddion a fyddai'n tanseilio llywodraethu da.

### Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth recriwtio aelodau'r Cyngor

Yn 2019/20, lluniwyd cynllun gweithredu amrywiaeth. Nod hyn oedd cefnogi'r broses argymell penodiadau i'r Cyngor, ac i ddangos sut rydyn ni’ cyflawni ein dyletswyddau o ran cydraddoldeb ar bob cam o'r gwaith cynllunio a gweithredu'r broses benodi. Nod y cynllun gweithredu yw ein helpu i nodi'r camau ymarferol a'r camau y gallwn eu rhoi ar waith i ddenu ystod eang ac amrywiol o ymgeiswyr sydd â'r cymwysterau addas.

I lunio'r cynllun, adolygwyd y canfyddiadau o ystod o adroddiadau allanol gan gynnwys adolygiad yr Arglwydd Holmes, *Opening up public appointments to disabled people*. Roedden ni am sicrhau bod mewnwelediadau a dysgu yn cael eu hymgorffori yn ein proses, a'u bod yn tynnu ar ddysgu, mewnwelediadau ac adborth o'r cylch penodiadau blaenorol.

## Tâl a phresenoldeb aelodau'r Cyngor Ebrill 2019 tan Fawrth 2020

Dim ond presenoldeb aelodau'r cyngor mewn cyfarfodydd ffurfiol rheolaidd mae'r tabl hwn yn ei gofnodi. Mae aelodau'r Cyngor hefyd yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd a digwyddiadau eraill. Mae hyn wedi cynnwys gweithio ar grwpiau sicrwydd a chynghori, a gweithio gyda'n rhanddeiliaid drwy fynychu digwyddiadau ymgysylltu ledled Prydain.

| Enw | Aelod cofrestredig neu leyg | Tâl[1] £ | Cyfarfodydd cyngor fynychwyd[2] | Gweithdai cyngor a fynychwyd | Cyfarfodydd pwyllgor gynhaliwyd neu fynychwyd |
|---|---|---|---|---|---|
| Nigel Clarke[3] | Lleyg | 56,000 | 9 o 10 | 10 o 10 | PCC* 4 o 4 |
| Aamer Safdar | Fferyllydd | 12,500 | 10 o 10 | 10 o 10 | PAR* 4 o 4 |
| Alan Kershaw | Lleyg | 12,500 | 9 o 10 | 9 o 10 | PwyllTâl 1 o 2 |
| Ann Jacklin | Fferyllydd | 12,500 | 9 o 10 | 9 o 10 | PwyllTâl 1 o 2 |
| Arun Midha | Lleyg | 12,500 | 8 o 10 | 8 o 10 | Dd/b |
| Digby Emson[4] | Fferyllydd | 15,000 | 9 o 10 | 9 o 10 | PAR* 4 o 4 |
| Elizabeth Mailey[5] | Fferyllydd | 15,000 | 9 o 10 | 9 o 10 | PwyllTâl 2 o 2 |
| Evelyn McPhail | Fferyllydd | 12,500 | 10 o 10 | 10 o 10 | PCC 4 o 4 |
| Jayne Salt | Lleyg | 12,500 | 9 o 10 | 9 o 10 | PAR* 4 o 4 |
| Joanne Kember | Fferyllydd | 12,500 | 9 o 10 | 9 o 10 | PwyllTâl 1 o 2 |
| Mark Hammond[6] | Lleyg | 15,000 | 9 o 10 | 9 o 10 | PCC 4 o 4 |
| Neil Buckley | Lleyg | 12,500 | 7 o 10 | 7 o 10 | PCC 4 o 4 |
| Rima Makarem | Lleyg | 12,500 | 9 o 10 | 9 o 10 | PAR 4 o 4 |
| Penny Hopkins | Technegydd fferyllol | 12,500 | 10 o 10 | 10 o 10 | PCC 4 o 4 |

## Nodiadau tabl tâl a phresenoldeb aelodau'r Cyngor

*	Pwyllgor Cyllid a Chynllunio

**	Pwyllgor Archwilio a Risg

***	Pwyllgor Tâl

1. Rhoddir tâl aelodau'r cyngor fel ffigur gros.
2. Mae'r ffigurau presenoldeb yn cynnwys cyfarfodydd ffurfiol a gweithdai anffurfiol y Cyngor, a phresenoldeb pwyllgorau. Rhaid i bob aelod o'r Cyngor gymryd rhan mewn digwyddiadau eraill megis diwrnodau strategaeth, cyfarfodydd rhanddeiliaid a grwpiau gorchwyl a pharatoi'r gwaith paratoi perthnasol. Nid ydynt yn cael tâl ychwanegol ar gyfer y rhain.
3. Cadeirydd y Cyngor.
4. Yn cynnwys £2,500 am gadeirio'r Pwyllgor Archwilio a Risg.
5. Yn cynnwys £2,500 am gadeirio'r Pwyllgor Tâl.
6. Yn cynnwys £2,500 am gadeirio'r Pwyllgor Cyllid a Chynllunio

## Treuliau aelodau'r cyngor
## Ebrill 2019 tan Fawrth 2020

| Aelod cyngor | Teithio | Llety | Cynhaliaeth | Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|---|
| Nigel Clarke | 567.94 | 0.00 | 0.00 | 567.94 |
| Aamer Safdar | 43.80 | 0.00 | 0.00 | 43.80 |
| Alan Kershaw | 249.15 | 365.64 | 58.84 | 673.63 |
| Arun Midha | 1871.54 | 750.00 | 134.56 | 2756.10 |
| Ann Jacklin | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| Digby Emson4 | 2088.70 | 0.00 | 4.50 | 2093.20 |
| Elizabeth Mailey | 601.40 | 0.00 | 0.00 | 601.40 |
| Evelyn McPhail | 3980.75 | 352.00 | 4.55 | 4337.30 |
| Jayne Salt | 999.75 | 1090.00 | 0.00 | 2089.75 |
| Joanne Kember | 856.85 | 2030.90 | 0.00 | 2887.75 |
| Mark Hammond | 1222.70 | 0.00 | 0.00 | 1222.70 |
| Neil Buckley | 424.40 | 148.50 | 0.00 | 572.90 |
| Penny Hopkins | 1138.58 | 736.00 | 24.10 | 1898.68 |
| Rima Makarem | 37.60 | 0.00 | 0.00 | 37.60 |

# Pwyllgorau anstatudol

## Pwyllgorau anstatudol

Mae'r Cyngor wedi penderfynu y dylid cael cyn lleied â phosibl o bwyllgorau anstatudol eraill er mwyn helpu i gyfyngu ar fiwrocratiaeth a sicrhau bod cyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir. Mae gan y CFfC bedwar pwyllgor anstatudol: archwilio a risg, tâl, sicrwydd a phenodiadau, a chyllid a chynllunio. Adolygir aelodaeth pwyllgorau anstatudol y Cyngor bob deuddeng mis drwy broses y cytunwyd arni.

### Pwyllgor Archwilio a Risg

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cefnogi'r Cyngor drwy adolygu trefniadau archwilio mewnol ac allanol y CFfC.  Mae hefyd yn adolygu'r trefniadau ar gyfer rheoli risgiau. Mae'n rhoi sicrwydd i'r Cyngor bod risgiau'n cael eu hadnabod a'u rheoli. Mae hyn yn cynnwys cynghori'r Cyngor ar y sicrwydd a geir mewn perthynas â risg a rheolaethau mewnol.

Mae'r pwyllgor yn cynnwys pedwar aelod o'r Cyngor, gan gynnwys cadeirydd y pwyllgor, Digby Emson. Dechreuodd cyfnod Digby ar 1 Ebrill 2017 a pharhaodd i wasanaethu fel cadeirydd drwy gydol 2019/20, ar ôl cael ei ail-gadarnhau yn y swydd gan y Cyngor ar 7 Mawrth 2019.

Mae gan y pwyllgor hefyd aelod annibynnol, Helen Dearden. Ymgymerodd Helen â'r penodiad ar 1 Ebrill 2017 a pharhaodd i wasanaethu fel aelod annibynnol drwy gydol 2019/20.

Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio a Risg bedair gwaith yn ystod y flwyddyn: ym Mai, Gorffennaf a Hydref 2019, ac yn Chwefror 2020.

Mae'r pwyllgor yn adrodd unwaith y flwyddyn i'r cyngor a gallwch weld yr adroddiadau hyn ar wefan y CFfC.

### Pwyllgor Cyllid a Chynllunio

Sefydlwyd y Pwyllgor Cyllid a Chynllunio gan y Cyngor ym mis Ebrill 2019. Disodlodd y Grŵp Sicrhau ac Ymgynghori ar Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd (GSYEE), a oedd wedi bod ar waith ers 2015. Mae'r Pwyllgor yn parhau â gwaith y GSYEE yn bwrw trosolwg dros gynllunio strategol ac ariannol, ond mae hefyd yn cynorthwyo’r Cyngor drwy oruchwylio a monitro datblygiad a gweithrediad strategaeth a pholisi buddsoddi'r CFfC.

Mae'r pwyllgor yn cynnwys pum aelod o'r Cyngor, gan gynnwys cadeirydd y pwyllgor, Mark Hammond, oedd yn gadeirydd gynt ar y GSYEE.

Mae gan y pwyllgor hefyd aelod annibynnol, Andrew McLaren. Ymgymerodd Andrew â'r penodiad ar 1 Medi 2019, i gefnogi rôl fuddsoddi ychwanegol newydd y pwyllgor.

Cyfarfu'r Pwyllgor bedair gwaith yn ystod y flwyddyn: ym Mai,  Medi a Thachwedd 2019, ac yn Ionawr 2020.

Bydd y pwyllgor yn adrodd unwaith y flwyddyn i'r Cyngor a gallwch weld yr adroddiadau hyn ar wefan y CFfC.

### Pwyllgor Tâl

Mae gan y Pwyllgor Tâl y pŵer, a ddirprwyir gan Gyngor Llywodraethu'r CFfC, i gymeradwyo neu wrthod y fframwaith cyflog ar gyfer cyflogeion y CFfC a'r pecynnau ar gyfer y prif weithredwr a'r cyfarwyddwyr. Mae'r pwyllgor yn cynghori'r Cyngor ar y polisi tâl (cyflog) ar gyfer aelodau'r cyngor ac ar y polisi treuliau ar gyfer aelodau'r cyngor a staff. Mae hefyd yn pennu'r polisi tâl a threuliau ar gyfer swyddogion cyswllt, ac yn monitro ein gwaith ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, ein diwylliant a'n harolygon staff.

Mae'r pwyllgor yn cynnwys pedwar aelod o'r cyngor, gan gynnwys cadeirydd y pwyllgor, Elizabeth Mailey, a ddaeth i'r gadair ar 1 Ebrill 2019. Mae gan y Pwyllgor hefyd ddau aelod annibynnol, Rob Goward a Janet Rubin.

Cyfarfu'r Pwyllgor ddwywaith yn ystod y flwyddyn: yn Ebrill a Medi 2019. Yn dilyn trafodaeth ym mis Medi 2019, argymhellodd y Pwyllgor na ddylid codi'r cyfraddau tâl ar gyfer cadeirydd ac aelodau'r Cyngor. Argymhellodd hefyd y dylai'r taliadau disgresiwn ar gyfer aelodau'r cyngor oedd yn cadeirio'r pwyllgorau anstatudol aros fel yr oeddent. Cytunodd y Cyngor ar yr argymhellion hyn ym mis Tachwedd 2019.

Mae'r pwyllgor yn adrodd unwaith y flwyddyn i'r Cyngor a gallwch weld yr adroddiadau hyn ar wefan y CFfC.

### Pwyllgor Sicrwydd a Phenodiadau

Mae'r pwyllgor hwn yn gyfrifol am recriwtio a phenodi aelodau'r pwyllgorau statudol. Mae hefyd yn goruchwylio trefniadau ynghylch eu hyfforddiant ac ar gyfer adolygu eu perfformiad. Mae'r pwyllgor yn adrodd i'r Cyngor, ond nid oes aelodau o'r cyngor yn gwasanaethu ar y pwyllgor. Mae ganddo hefyd gadeirydd annibynnol, sef Elisabeth Davies. Mae hyn yn rhan bwysig o'r ymdrech i sicrhau bod tasgau'n cael eu gwahanu'n briodol rhwng y Cyngor a'r pwyllgorau statudol.

## Prif weithredwr a chofrestrydd a chyfarwyddwyr

Mae staff y GPhC yn cael ei arwain gan y prif weithredwr a chofrestrydd. Mae pob uwch arweinydd a chyfarwyddwr yn ymwneud ag agweddau ar strategaeth, gweithrediadau polisi a datblygiad rheoleiddiol. Mae hyn yn cryfhau gweithio integredig ac yn gwella ein heffeithiolrwydd rheoleiddiol.

Mae pum cyfarwyddwr, yn arwain timau'r sefydliad fel a ganlyn:

- Addysg a Safonau, dan arweiniad Mark Voce
- Addasrwydd i Ymarfer, dan arweiniad Carole Auchterlonie
- Mewnwelediad, Gwybodaeth ac Arolygu, dan arweiniad Claire Bryce-Smith
- Pobl, dan arweiniad Francesca Okosi, a
- Chyllid, dan arweiniad Jonathan Bennetts

Penodwyd Jonathan Bennetts i arwain y swyddogaethau Cyllid a Chaffael ym mis Ebrill 2019.

### Uwch grŵp arwain

Sefydlwyd y grŵp arwain uwch gan y prif weithredwr a chofrestrydd fel ffordd o gyflawni nifer o gyfrifoldebau llywodraethu gweithredol allweddol. Mae'r uwch grŵp arwain yn cynnwys y prif weithredwr a chofrestrydd, y cyfarwyddwyr, a'r pennaeth staff, Laura McClintock.

Gallwch weld rhagor o wybodaeth am ein strwythur ar ein gwefan.

### Gofynion cyfrifyddu

Mae'r CFfC yn gorff statudol annibynnol, sy'n atebol i Senedd y DU a Senedd yr Alban. Rhaid i'r CFfC, o dan Orchymyn Fferylliaeth 2010, baratoi cyfrifon blynyddol ar ffurf a bennir gan y Cyfrin Gyngor. Rhaid i ni baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn yn unol ag egwyddorion cyfrifyddu'r DU a'r gofynion datgelu a ragnodir yn yr Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig (GAAP). Rhaid paratoi'r cyfrifon fel eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r sefydliad, ac o'i incwm, gwariant, enillion a cholledion cydnabyddedig, a'i lifoedd arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

### Nifer a mathau o gwynion

Cawsom 82 o gwynion am ein gwasanaethau yn 2019/20 (cafwyd 80 yn 2018/19 a 106 yn 2017/18). Roedd rhai cwynion yn ymwneud â mwy nag un mater, felly rydym wedi'u nodi yn y tabl yn unol â phrif thema'r gŵyn. Mae gwybodaeth fanylach am gwynion yn cael ei hadrodd i'r Cyngor trwy fonitro perfformiad yn rheolaidd.

Wrth ymdrin â chwynion, ein nod yw gweithredu ar yr hyn rydyn ni'n ei ddysgu, lle bynnag y bo modd. Er enghraifft, cawsom gwynion am y broses dileu gwirfoddol. Yn sgil y cwynion hyn, rydym bellach wedi newid hysbysiadau myGPhC i sicrhau nad yw pobl sydd wedi gofyn am gael eu dileu'n wirfoddol yn cael eu hatgoffa am ailddilysu. Rydyn ni hefyd wedi gwneud y wybodaeth yn fwy eglur yn y llythyrau yn cadarnhau dileu gwirfoddol.

## Cwynion a dderbyniwyd yn 2019/20

| Mater | Cyfanswm 2019/20 |
|---|---|
| Proses CFfC | 15 |
| Canlyniad pryder/penderfyniad CFfC | 25 |
| Gwybodaeth a data | 1 |
| myGPhC | 16 |
| Ymddygiad staff | 2 |
| Cydraddoldeb ac amrywiaeth | 0 |
| Safonau ac asesu | 7 |
| Ffioedd | 3 |
| Arall | 13 |
| **Cyfanswm** | **82** |

## Sut rydyn ni'n bodloni deddfwriaeth rhyddid gwybodaeth a diogelu data

O dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (RhG), gall unrhyw un ofyn i weld cofnodion y CFfC. Gallwch **ddysgu sut i wneud hyn ar ein gwefan**.

Ein cynllun cyhoeddi yw'r 'cynllun cyhoeddi model', a ddiwygiwyd ac a gymeradwywyd gan y Comisiynydd Gwybodaeth (SCG) yn 2014 ar gyfer pob rheolydd iechyd. Mae hyn yn ein hymrwymo i gyhoeddi gwybodaeth fel mater o drefn.

Fel rheolwr data cofrestredig o dan Ddeddf Diogelu Data 2018 (DDD), rydyn ni'n casglu, storio a defnyddio data personol. Rydyn ni'n defnyddio'r data hwn i, er enghraifft, ddiweddaru'r gofrestr, delio â phryderon, casglu ystadegau a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y CFfC i'n rhanddeiliaid. Rydyn ni'n rhannu data personol â sefydliadau eraill er budd y cyhoedd ac er mwyn cefnogi ein rôl a'n cyfrifoldebau statudol. Gallwch ddarllen mwy am **y ffordd y defnyddiwn ac y diogelwn ddata personol a'r sefydliadau rydyn ni'n gweithio gyda nhw** ar ein gwefan.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethon ni barhau i ddiweddaru ein polisïau a'n harferion gwaith er mwyn cadw at ddeddfwriaeth diogelu data. Ym mis Awst 2019, cynhaliodd ein harchwilwyr archwiliad o'n harferion yn erbyn gofynion y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR). Rhoddon nhw asesiad 'sicrwydd rhesymol' i ni. Cafodd ein gweithwyr a'n gweithwyr cysylltiol hyfforddiant blynyddol ar ddiogelu data a diogelwch gwybodaeth.

Adroddwyd tri achos ynghylch data personol gennym i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ystod y flwyddyn. Roedd un o'r rhain yn ymwneud â datgelu data personol sensitif yn ddamweiniol i berson arall. Ni weithredwyd unrhyw gamau gan y Comisiynydd yn unrhyw un o'r achosion hyn, ond rydyn ni wedi rhoi camau ar waith i wella ein prosesau fel na fydd digwyddiadau tebyg yn y dyfodol.

Yn 2019/20, cawsom 241 o geisiadau am wybodaeth o dan y Deddfau Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data (cawsom 225 yn 2018/19). Ymatebwyd i bob cais, ar wahân i un, o fewn terfynau amser statudol. Roedd yr oedi gyda'r cais hwnnw, a dderbyniwyd ym Mawrth 2020, oherwydd bod ein tîm data yn cael ei ddefnyddio ar waith hanfodol yn gysylltiedig â COVID-19.

| Math o gais am wybodaeth | Nifer yn 2019/20 |
|---|---|
| RhG | 153 |
| DDD* | 61 |
| Mynediad gwrthrych ** | 27 |

* Achosion DDD yw'r rhai pan fydd sefydliad trydydd parti yn gwneud cais am ddata personol unigolyn a ninnau'n ystyried datgelu o dan un o eithriadau'r Ddeddf Diogelu Data.

* * Ceisiadau gwrthrych am wybodaeth yw pan fo person yn gofyn i ni ddatgelu iddo/iddi y wybodaeth sydd gennym amdano/amdani. Ein nod yw bod mor dryloyw â phosibl yn yr achosion hyn, ond efallai na fyddwn yn gallu darparu'r holl wybodaeth y gofynnant amdani. Er enghraifft, efallai y byddwn yn 'golygu' (golygu neu ddileu) gwybodaeth sy'n cynnwys data personol pobl eraill.

Mewn 17 o achosion, nid oedd gennym y wybodaeth y gofynnwyd amdani. Pan oedd y wybodaeth gennym, fe'i datgelwyd, naill ai'n llawn neu'n rhannol, yn 84% o'n hymatebion i geisiadau. Roedd y rhan fwyaf o achosion lle na ddatgelon ni wybodaeth yn ymwneud â data personol pobl eraill. Cawsom bum cais i adolygu penderfyniad a wnaed gennym am ddatgelu ac asesodd **Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth** dair cwyn ynghylch ein hymatebion yn ystod y flwyddyn. Ni weithredodd y Comisiynydd unrhyw gamau pellach ar ôl adolygu ein hymatebion.

Cawsom hefyd dri chais o dan hawliau eraill yn y ddeddfwriaeth diogelu data newydd.

## Datgeliadau Chwythu'r Chwiban i ni fel 'person rhagnodedig'

Creodd y Ddeddf Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth bŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol ei gwneud yn ofynnol i 'bersonau rhagnodedig' gynhyrchu adroddiad blynyddol ar ddatgeliadau wedi'u diogelu ('chwythu'r chwiban') a wneir iddynt gan weithwyr. Nod y ddyletswydd hon yw sicrhau mwy o dryloywder yn y ffordd yr ymdrinnir â'r datgeliadau hyn a chynyddu hyder ymhlith pobl sy'n mynegi pryder bod eu datgeliadau'n cael eu trin o ddifrif.

Fel person rhagnodedig, mae'n rhaid i ni adrodd yn ysgrifenedig bob blwyddyn ar ddatgeliadau wedi'u diogelu a wneir i ni. Dyma'r adroddiad ar gyfer y cyfnod yn dechrau ar 1 Ebrill 2019 ac yn dod i ben ar 31 Mawrth 2020.

Ein rôl fel person rhagnodedig yw rhoi lle i weithwyr wneud eu datgeliad i gorff annibynnol pan:


- fo'r gweithiwr yn teimlo na all wneud datgeliad yn uniongyrchol i'w gyflogwr, ac
- y gallem fod mewn sefyllfa i roi camau rheoleiddio ar waith ar gyfer yr hyn a ddatgelir

Os na allwn rhoi camau rheoleiddio ar waith am fod y datgeliad y tu hwnt i'n cwmpas, byddwn yn cyfeirio'r datgeliad at sefydliad priodol.

Rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020 cawsom 22 datgeliad cymwys o wybodaeth.

O'r datgeliadau hyn, cwblhawyd ymholiadau gennym ar 18, gyda phedwar arall yn dal i gael eu hadolygu. Hefyd, cwblhawyd saith datgeliad

### Cyfraddau datgelu 2019/20



cymwys a godwyd yn ystod y cyfnod adrodd blaenorol.

Roedd y camau a roddwyd ar waith gennym yn cynnwys ymchwiliad llawn drwy brosesau addasrwydd i ymarfer sefydledig a gweithredu dilynol drwy ein rhwydwaith arolygu. Gall y cyntaf arwain at unrhyw ganlyniad sydd ar gael o dan y broses addasrwydd i ymarfer. Gall yr olaf gynnwys cyfarwyddyd, ymweliad dilynol neu arolygiad heb rybudd.

Ymchwiliwyd i un ar ddeg o bryderon eraill heb unrhyw gamau pellach. Cyfeiriwyd pum achos at sefydliad arall. Ymchwiliwyd i'r ddau achos sy'n weddill gyda chyfarwyddyd yn cael ei gyflwyno gan gydweithwyr addasrwydd i ymarfer, arolygu neu addysg.

O'r saith pryder o'r cyfnod adrodd blaenorol, daeth pump i ben heb unrhyw gamau pellach. Ymchwiliwyd i'r ddau achos arall gyda chyfarwyddyd yn cael ei gyflwyno gan gydweithwyr addasrwydd i ymarfer, arolygu neu addysg.

Nid oedd yr un o'r datgeliadau'n effeithio ar ein gallu i gyflawni ein swyddogaethau a chyflawni ein hamcanion. Nodir y rhain yn yr adran 'Amdanon ni' ar ddechrau'r adroddiad hwn.

# Datganiad llywodraethiant 2019/20

## Cwmpas ein cyfrifoldeb

Fel prif weithredwr a chofrestrydd, rwy'n atebol i'r Cyngor am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi strategaeth ac amcanion y Cyngor, tra'n diogelu asedau'r CFfC. Rwyf hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod busnes y CFfC yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, rwyf yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith ar gyfer llywodraethu materion y CFfC ac am sicrhau ei fod yn cyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol. Mae hyn yn cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg.

## Diben y fframwaith llywodraethu

Mae llywodraethu'n ymwneud â'r CFfC yn sicrhau ei fod yn gwneud y pethau cywir, yn y ffordd gywir, ar gyfer y bobl gywir, ac mewn modd amserol, cynhwysol, agored, gonest ac atebol.

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys:

- y systemau, y prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd sy'n cyfarwyddo ac yn rheoli'r CFfC, a
- gweithgareddau'r CFfC wrth ymgysylltu ag aelodau cofrestredig, y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill

Mae'r fframwaith yn caniatáu i'r CFfC fonitro a yw ei amcanion yn cael eu cyflawni ac ystyried a wnaed hynny mewn modd effeithiol ac effeithlon.

Mae'r system reoli fewnol yn rhan bwysig o'r fframwaith hwnnw a chafodd ei chreu i reoli risg i lefel resymol. Ni all ddileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion. Felly, dim ond sicrwydd rhesymol (ac nid absoliwt) o effeithiolrwydd y gall ei roi. Seilir y system reoli fewnol ar broses barhaus wedi'i dylunio i nodi a blaenoriaethu'r risgiau, i werthuso'r tebygolrwydd o weld gwireddu'r risgiau a'r effaith bosibl pe byddai hynny'n digwydd, ac i'w rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd.

Ar wahân i'r newidiadau i'r Uwch Grŵp Arwain, fel y disgrifiwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, mae'r fframwaith llywodraethu wedi bod ar waith yn y CFfC am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r datganiad cyfrifon.

## Y fframwaith llywodraethu

Eleni, cytunon ni ar weledigaeth ddeng mlynedd ar gyfer gofal fferyllol diogel ac effeithiol wrth galon cymunedau iachach. Mae'r weledigaeth hon yn llywio ein cynllunio tymor hirach, gan gynnwys y cyntaf o'n dau gynllun strategol pum mlynedd newydd, ynghyd â strategaethau a chynlluniau busnes ategol. Mae'r rhain yn rhoi mwy o fanylion am y ffordd y caiff y weledigaeth ei gwireddu a'r canlyniadau a ddisgwylir.

Mae ein cynllun busnes yn rhoi ffocws clir i'n huwch arweinwyr a staff. Mae'n rhoi fframwaith i ni y gallwn ei ddefnyddio i fonitro'r hyn rydyn ni'n ei wneud i gyflawni ein blaenoriaethau, er mwyn i ni allu asesu ein cynnydd a'n perfformiad wrth weithredu'r cynllun strategol. Yn eu tro, caiff ffrydiau allweddol o waith eu hategu gan gynlluniau project manylach, sydd hefyd yn cael eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd.

Gallwch ddarllen rhagor o wybodaeth am y fframwaith llywodraethu, gan gynnwys strwythur cyfundrefnol a gweithrediadau ein pwyllgorau, yn adran *Pwyllgorau'r CFfC* yr adroddiad blynyddol hwn.

## Adolygu effeithiolrwydd

Fel y prif weithredwr a chofrestrydd, rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu'r CFfC, gan gynnwys y system reoli fewnol. Cefnogir yr adolygiad effeithiolrwydd gan:

- waith rheolwyr gweithredol y CFfC, sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu
- adroddiad blynyddol y pennaeth archwilio mewnol, a
- sylwadau gan yr archwilwyr allanol ac asiantaethau adolygu eraill

Penododd y Cyngor TIAA yn archwilwyr mewnol newydd i'r CFfC ym mis Mehefin 2019. Penodwyd yr archwilwyr allanol presennol, Crowe, Clark a Whitehill gan y Cyngor ar 12 Hydref 2017, yn dilyn argymhelliad panel tendro'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

Disodlodd TIAA yr archwilydd mewnol blaenorol, BDO (Moore Stephens gynt) yn dilyn ymarferiad caffael llawn yn gynharach yn y gwanwyn. Roedd y broses drosglwyddo rhwng y ddau archwilydd yn cynnwys trafodaeth am y cyfnod pontio yng nghyfarfod mis Medi 2019 y PAR. Fel rhan o broses sefydlu TIAA, cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd cyflwyniadol rhwng TIAA, cyfarwyddwyr CFfC a Chadeirydd y PAR. Ni chafodd y broses bontio rhwng darparwyr archwiliadau mewnol unrhyw effaith ymarferol na sylweddol arall ar y gallu i gynnal gwaith archwilio mewnol effeithiol.

I adlewyrchu'r pontio rhwng darparwyr archwilio mewnol cafodd y cynllun archwilio blynyddol ei adolygu a'i ddiweddaru gan ddefnyddio cyfuniad o farn broffesiynol a gwerthuso risg. Ar yr un pryd cafodd dwy flynedd nesaf strategaeth archwilio mewnol tair blynedd 2020-22 eu hadolygu a'u diweddaru hefyd i sicrhau bod cynlluniau archwilio'r presennol a'r dyfodol yn parhau'n berthnasol ac yn gyfredol. Er mwyn sicrhau bod cwmpas yr adolygiad effeithiolrwydd yn ddigon eang, aseswyd digonolrwydd ac effeithiolrwydd y system reoli fewnol mewn perthynas â phrif feysydd cyflenwi gwasanaethau, y systemau rheoli sy'n ein galluogi i'w cyflenwi, a'n prosesau craidd.

Rydyn ni wedi parhau i weithio gydag archwilio mewnol i sicrhau bod ein system reoli fewnol yn addas ar gyfer y presennol a'r dyfodol.

At ei gilydd, cynhaliwyd 8 o aseiniadau gan ein harchwilwyr mewnol ac fe'u hadolygwyd gan y pwyllgor yn ystod y flwyddyn, ac roedd dau ohonynt yn rhai cynghorol eu natur ac un arall yn dilyn i fyny ar argymhellion blaenorol:

- Cydymffurfio GDPR – Sicrwydd Rhesymol
- Caffael – Sicrwydd Cyfyngedig
- Adolygiad Cyllid Craidd (AP/AR/cyflogres) – Sicrwydd Sylweddol
- Integriti'r Gofrestr – Sicrwydd Sylweddol
- Adolygu dogfennau llywodraethu allweddol - Cynghorol
- Adolygu Trefniant Parhad Busnes Covid 19 – Cynghorol
- Gweithredu'r Cynllun Gweithredu Iechyd a Diogelwch – Rhesymol

- Proses Addasrwydd i Ymarfer – Meini Prawf Trothwy – Melyn Gwyrdd*

*Cynhaliwyd *archwilaid mewnol Meini Prawf Trothwy - Proses Addasrwydd i Ymarfer* gan y darparwr archwilio mewnol blaenorol, BDO, cyn y trosglwyddiad. Rhoddwyd sgôr ‘Melyn-Gwyrdd’ ar gyfer yr archwiliad hwn fel, a ddisgrifir fel 'fframwaith rheoli da ar waith, yn gyffredinol. Fodd bynnag, nodwyd rhai mân wendidau yn y fframwaith rheoli, neu mae yna feysydd o ddiffyg cydymffurfio a allai beryglu'r broses o gyflawni amcanion y system neu'r busnes.'

## Esboniad o'r sgoriau

**Sicrwydd sylweddol:** Mae system gadarn o reolaethau mewnol ar waith yn effeithiol i sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli ac amcanion y broses yn cael eu cyflawni.

**Sicrwydd rhesymol:** Yn gyffredinol, mae system ddigonol o reolaethau mewnol ar waith yn effeithiol ond mae angen rhai gwelliannau i sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli, ac amcanion prosesau’n cael eu cyflawni.

**Sicrwydd cyfyngedig:** Mae’r system reoli fewnol yn gyffredinol annigonol neu’n cael ei gweithredu’n aneffeithiol ac mae angen gwelliannau sylweddol i sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli, ac amcanion prosesau’n cael eu cyflawni.

**Dim sicrwydd**: Mae diffyg sylfaenol o ran rheolaethau mewnol craidd, neu maen nhw wedi dirywio’n llwyr, a hyn yn gofyn am weithredu ar unwaith. Ambr: mae gwendidau wedi eu nodi yn y fframwaith rheoli neu mae diffyg cydymffurfiaeth, ac mae hyn yn rhoi'r broses o gyflawni amcanion y system mewn perygl. Bydd angen rhoi rhai camau adfer ar waith.

**Cynghorol:** nid oes gan yr adroddiadau hyn sgôr sicrwydd ffurfiol gan eu bod yn adolygiadau ar feysydd gwaith sy'n barhaus a heb fod wedi eu cwblhau.

Fe'm cynghorwyd ar oblygiadau canlyniad yr adolygiad ar effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu gan y pwyllgor archwilio a risg ac fe’m cynghorwyd bod y trefniadau'n parhau i gael eu hystyried yn addas at eu diben o fewn ein fframwaith llywodraethu.

Wrth wneud y datganiad hwn, rwyf wedi nodi'r farn archwilio mewnol bod gan y Cyngor Fferyllol Cyffredinol brosesau rhesymol ac effeithiol ar waith ar gyfer rheoli risg, rheoli a llywodraethu.

Er mai barn yr archwilwyr mewnol yn gyffredinol yw y gellir rhoi sicrwydd rhesymol, mae'r farn archwilio mewnol hefyd yn amlygu bod "rhywfaint o wendid yn nyluniad y rheolaethau, neu anghysondeb yn y ffordd y cânt eu gweithredu, a gallai hyn beryglu cyflawni amcanion penodol".

Gwn fod rhywfaint o risg na fydd ein hamcanion o bosibl yn cael eu cyflawni'n llawn mewn rhai ffyrdd a bod angen gwelliannau i fynd i'r afael â'r risgiau hynny.

Isod, ceir amlinelliad o'r meysydd yr ydyn ni eisoes wedi mynd i'r afael â nhw’n benodol gyda chamau gweithredu newydd neu ychwanegol.

## Materion llywodraethu sylweddol

**Mater llywodraethu: gwella'r caffael, rheoli a gwerth am arian a geir o gontractau trydydd parti drwy gaffael yn fwy effeithiol a rhagweithiol.**

**Cam gweithredu lliniaru/arfaethedig**: Rydyn ni’n creu cofrestr gontractau gyfredol i helpu i sicrhau bod contractau presennol yn cael eu

caffael yn fwy effeithiol a chynlluniedig. Bydd y gofrestr gontractau hefyd yn cael ei halinio â chynllun blynyddol y GPhC i sicrhau y gall gweithgarwch sydd newydd ei gynllunio gael ei gipio yn effeithiol o safbwynt caffael yn ogystal â rheoli amnewid ac/neu adnewyddu contractau sy'n bodoli eisoes. Yn ogystal, mae'r CFfC hefyd yn adolygu ei ymagwedd bresennol at Gaffael a fydd yn ystyried y strategaeth a'r broses gywir yn y dyfodol.  Bydd canlyniad adolygiad 'gwersi a ddysgwyd' sy'n cael ei gynnal ar broses gaffael flaenorol yn cyfrannu at yr ymagwedd gaffael ddiwygiedig, ac yn ei llywio. Mae eitem sefydlog i drafod caffael wedi'i chynnwys yn agendau cyfarfodydd PAR am y dyfodol rhagweladwy er mwyn rhoi  diweddariadau i'r pwyllgor ar y cynnydd sy'n cael ei wneud yn y maes hwn. Bydd yr eitem agenda hon yn cynnwys rhoi diweddariadau ar gynnydd yn erbyn argymhellion a nodwyd drwy adroddiad archwilio mewnol TIAA.

**Mater llywodraethu: Cyrraedd Safonau Rheoleiddio Da'r Awdurdod Safonau Proffesiynol (ASP)**

Yn ogystal â'n system reoli fewnol, mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol yn craffu ar ein perfformiad yn erbyn ei Safonau Rheoleiddio Da bob blwyddyn. Yn 2018/19 canfu'r ASP fod y CFfC yn cyrraedd 20 o'r 24 Safon Rheoleiddio Da yn 2018/19, gan gynnwys yr holl safonau sy'n ymwneud â chanllawiau a safonau, addysg a hyfforddiant a chofrestru.

Yn dilyn adolygiad ac archwiliad targedig ar 63 o achosion addasrwydd i ymarfer a gafodd eu cau rhwng 1 Mawrth 2018 a 28 Chwefror 2019, nododd yr ASP bod pedwar o bob deg safon addasrwydd i ymarfer heb eu cyrraedd. Er nad oedd yr ASP o'r farn bod y pryderon a aseswyd drwy'r archwiliad wedi arwain at wneud penderfyniadau anghywir, amlygodd adroddiad yr ASP sawl maes oedd angen eu gwella.  Roedd y rhain yn cynnwys gwella cadw cofnodion, diweddaru canllawiau mewnol, a gwella prydlondeb o ran datblygu achosion addasrwydd i ymarfer, rhesymau dros benderfyniadau a chyfathrebu gyda phobl oedd ynghlwm wrth achosion.

Rydyn ni wedi ymrwymo i ddefnyddio'r adborth hwn ac rydym wedi rhoi cynllun gweithredu ar waith i sicrhau bod y gwelliannau hyn yn cael eu datblygu fel mater o flaenoriaeth a'u gwreiddio yn ein systemau dros y tymor hirach. Byddwn yn adolygu ein cynnydd yn rheolaidd yn erbyn y cynllun gweithredu ac yn adrodd ar hyn wrth ein Cyngor.

## Crynodeb

Rwyf yn cynnig parhau i roi camau ar waith dros y flwyddyn nesaf i fynd i'r afael â'r materion uchod er mwyn gwella ein trefniadau llywodraethu ymhellach.  Rwyf yn fodlon y bydd y camau hyn yn mynd i'r afael â'r angen i wneud gwelliannau a nodwyd yn ein hadolygiad effeithiolrwydd a byddaf yn monitro'r gwaith o'u gweithredu yn fy adolygiad blynyddol nesaf.

**Duncan Rudkin**
**Prif Weithredwr**
**11 Mehefin 2020**

# Datganiadau ariannol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

## Adolygiad ar weithgareddau busnes

Ochr yn ochr â chyflawni ein cyfrifoldebau rheoleiddio fel rheoleiddiwr gofal iechyd, canolbwyntiwyd ein gwaith yn 2019/20 ar y bum thema strategol a nodir yn y cynllun blynyddol: 1) Meithrin ein gallu o ran data a mewnwelediad, 2) Datblygu ymagwedd gymesur ac adferol tuag at addasrwydd i ymarfer, 3) Gweithredu ein dull o reoleiddio fferyllfeydd cofrestredig, 4) Gosod a chynnal safonau, 5) Gweithredu fel sefydliad proffesiynol, darbodus.

## Incwm

Daw incwm yn bennaf o ffioedd adnewyddu gan fferyllwyr, technegwyr fferyllfa a lleoliadau fferyllol, a gydnabyddir yn y cyfrifon gydol y flwyddyn gofrestru yn unol â'r egwyddorion cyfrifyddu. Felly, nid yw'r arian gwirioneddol a gafwyd am y flwyddyn yn adlewyrchu'r incwm a gydnabyddir gan ffioedd adnewyddu’r flwyddyn ariannol.

## Prif ffynonellau incwm

| Grŵp aelodau cofrestredig | Incwm 2019/20 (£m) | Nifer aelodau 2019/20 | Incwm 2018/19 (£ m) | Nifer aelodau 2018/19 |
|---|---|---|---|---|
| Fferyllwyr | 15.1 | 57,651 | 14.7 | 56,288 |
| Technegwyr fferyllol | 3.0 | 23,705 | 2.9 | 23,387 |
| Fferyllfeydd cofrestredig | 3.7 | 14,181 | 3.7 | 14,899 |

Mae'r ffigurau uchod yn cynnwys ffioedd adnewyddu blynyddol, ffioedd cofrestru cychwynnol a ffioedd ymgeisio.


Cyfanswm ein hincwm am y flwyddyn oedd £ 23.2m (2018/19: £22.7m), cynnydd o 2.2% o'r flwyddyn flaenorol. Mae hyn oherwydd effaith y cynnydd mewn ffioedd yn 2019 a'r cynnydd yn nifer y fferyllwyr a thechnegwyr, wedi'i wrthbwyso gan leihad llai yn nifer y fferyllfeydd cofrestredig.

Roedd incwm cyn-gofrestru, yn cynnwys ffioedd arholiadau a ffioedd ceisiadau cyn-gofrestru yn £1.1m am y flwyddyn, (2018/19: £1.1m). Cafwyd gostyngiad o £31k o'r flwyddyn flaenorol yn sgil gostyngiad yn nifer yr ymgeiswyr cyn-gofrestru newydd. Disgwylid hyn gan fod gostyngiad yn nifer y myfyrwyr prifysgol yn dechrau ar y cwrs gradd yn 2015.

Safodd cyfanswm o 4,016 o fyfyrwyr yr arholiadau ym Mehefin a Medi 2019 (2018/19: 3,786), cynnydd o 6.0% o'r flwyddyn flaenorol. Roedd hyn yn rhannol oherwydd bod cyfradd lwyddo mis Mehefin yn is na'r disgwyl, gan arwain at gynnydd yn y niferoedd a safodd ym mis Medi.

I gefnogi'r anghenion gofal iechyd yn ystod pandemig COVID-19, ymunodd cyfuniad o 6,241 o fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol â'r gofrestr ar sail tymor byr heb unrhyw ffioedd yn cael eu codi.

## Gwariant gwirioneddol 2019/20




## Gwariant

Y gwariant ar gyfer y flwyddyn ariannol oedd £23.1m (2018/19: £23.8m), gostyngiad o 2.9% o'r flwyddyn flaenorol, sy'n cynnwys cyflawni'r targed arbedion effeithlonrwydd o 3% a bennwyd yng nghyllideb 2019/20.

Roedd costau gweithwyr yn £12.7m (2018/19: £12.6m), cynnydd bychan o'i gymharu â'r llynedd. Cafodd cynnydd yn y maes hwn ei gadw mor isel â phosibl fel rhan o'r amcan arbedion effeithlonrwydd, drwy aildrefnu bychan mewn rhai adrannau. Rhoddwyd mwy o bwyslais hefyd ar recriwtio er mwyn lleihau'r adnoddau dros dro drutach a ddefnyddid i lenwi swyddi gwag.

Cyfanswm costau eraill gweithwyr oedd £2.4m (2018/19: £3.2m). Mae sawl ffactor yn cyfrannu at y gostyngiad yn y gwariant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd costau'r Cyngor a Gweithwyr Cysylltiol £0.23m yn is oherwydd gostyngiad yn nifer y gwrandawiadau Addasrwydd i Ymarfer, hyfforddiant Gweithwyr Cysylltiol a Phartneriaid a digwyddiadau achredu. Gwnaethom ostyngiad sylweddol hefyd yn y flwyddyn ariannol ar gostau recriwtio staff, 2019/20 £0.19m (2018/19: £0.39m) drwy ddibynnu llai ar asiantaethau allanol.

Roedd gwariant ar ddibrisiant ac amorteiddio ar gyfer y flwyddyn yn £1.0m (2018/19: 0.8m), sef

cynnydd o 25%. Mae costau amorteiddio bellach yn cael eu cydnabod ar gyfer projectau datblygu amrywiol fel gwasanaethau cofrestru ar-lein, safle cyhoeddi arolygiadau a'r porth ailddilysu, gan fod y systemau hyn wedi dod yn weithredol yn ystod y flwyddyn ariannol.

Cyfanswm y costau TG oedd £1.6m ar gyfer y flwyddyn (2018/19: £1.3m), cynnydd o 23% o'r flwyddyn flaenorol. Mae'r cynnydd o ganlyniad i'r ffaith bod rhai gwasanaethau TG mewn cyfnod trosiannol a’r angen i gynnal y systemau presennol wrth symud gwasanaethau ymlaen i'r cwmwl.

Mae costau meddiannaeth yn cynnwys y gofod dynodedig ar gyfer gwrandawiadau AY, cyfanswm o £2.1m (2018/19: £2.1m), cynnydd o £14k o'r flwyddyn flaenorol. Gwnaed cryn dipyn o waith i sicrhau bod y cynnydd mewn rhent pwynt canol cyn ised â phosibl. Arweiniodd gwaith ar y cyd gan y tenantiaid i gyd i adolygu'r taliadau gwasanaeth at ad-dalu rhai costau gan y landlord, a liniarodd rywfaint ar effaith y cynnydd yn y rhent.

## Gwarged/diffyg am y flwyddyn

At ei gilydd, y canlyniad gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn ariannol yw gwarged o 0.3m (2018-19: diffyg o £0.9m). Mae'r canlyniad hwn yn adlewyrchu cynnydd o ran cyflawni strategaeth ariannol y CFfC sydd â’r nod o greu sefydliad ariannol sefydlog sy'n gallu ariannu cost rheoleiddio yn effeithiol yn y dyfodol.

Gwariant y flwyddyn oedd £1.5m (6.4% yn is na disgwyliadau’r gyllideb). Gydol y flwyddyn roedd ychydig o feysydd a danwariodd yn erbyn y gyllideb: Roedd costau'r Cyngor a'r Gweithwyr Cyswllt £0.6m yn is oherwydd y bu llai o wrandawiadau nag a ragwelwyd, bod sawl digwyddiad hyfforddi ar gyfer gweithwyr cysylltiol heb eu cynnal a bod llai o ddigwyddiadau achredu na'r disgwyl. Roedd costau cyfreithiol £0.2m yn is na'r gyllideb gan fod llai o achosion wedi cael eu hanfon at gwmnïau cyfreithiol allanol. Roedd costau TG £0.5m yn is gan fod darnau amrywiol o waith wedi cael eu gwneud yn fewnol a chyflawnwyd swm uwch na'r disgwyl o arbedion fel rhan o'r symudiad i'r cwmwl.

## COVID-19

Er bod y pandemig yn dylanwadu ar y ffordd rydyn ni’n gweithio ar hyn o bryd ac y byddwn ni’n gweithio yn y dyfodol, ychydig iawn o effaith a gafodd ar wariant eleni a dim effaith ar incwm. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i addasu cynllun a chyllideb blynyddol 2020/21 i gynnwys y blaenoriaethau sy'n dod i’r amlwg yn sgil y pandemig.

## Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor o ran paratoi'r datganiadau ariannol

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am baratoi adroddiad y Cyngor Fferyllol Cyffredinol a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith a'r Rheoliadau perthnasol.

O dan Orchymyn Fferylliaeth 2010, rhaid i aelodau'r Cyngor baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. O dan y gyfraith honno, mae'r Cyfrin Gyngor wedi cyfarwyddo'r CFfC i baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â'r Arfer Cyfrifo a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig (Safon Gyfrifyddu'r Deyrnas Unedig a chyfreithiau cymwys) gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102. Ni fydd aelodau'r Cyngor yn cymeradwyo'r datganiadau ariannol oni bai eu bod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o'r sefyllfa a gwarged neu ddiffyg y CFfC am y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, rhaid i aelodau'r Cyngor:

- ddewis polisïau cyfrifyddu addas a'u gweithredu'n gyson
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon cyfrifyddu sy'n rhesymol a chall
- datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys y DU, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau materol o'r rhain yn y datganiadau ariannol
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail 'busnes gweithredol' oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y CFfC yn parhau â'i weithgareddau

Mae aelodau'r Cyngor yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu digonol. Rhaid i'r rhain fod yn ddigonol i ddangos ac esbonio trafodion y CFfC, a datgelu gyda chywirdeb rhesymol – ar unrhyw adeg – sefyllfa ariannol y CFfC. Mae'n rhaid iddynt alluogi'r Cyngor i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cadw at Orchymyn Fferylliaeth 2010. Mae aelodau'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r CFfC ac felly am roi camau rhesymol ar waith i atal a chanfod twyll ac anghysonderau arall.

Drwy orchymyn y Cyngor

**Nigel Clarke**
**Cadeirydd**
**11 Mehefin 2020**

# Adroddiad yr archwilydd annibynnol i aelodau cyngor y Cyngor Fferyllol Cyffredinol

## Barn

Rydyn ni wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (CFfC) am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2020 sy'n cynnwys datganiad incwm cynhwysfawr, datganiad sefyllfa ariannol, y fantolen, datganiad llifoedd arian, datganiad newidiadau mewn cronfeydd a nodiadau i'r datganiadau ariannol, yn cynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Y fframwaith adrodd a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi oedd deddfau perthnasol a Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig, yn cynnwys Safon Adrodd Ariannol 102, Y Safon Adrodd Cyllidol perthnasol i'r DU a Gweriniaeth Iwerddon. (Arferion Cyfrifo a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU).

Gwneir yr adroddiad hwn i aelodau'r Cyngor yn unig, fel corff, yn unol ag Atodlen 1 Gorchymyn Fferylliaeth 2010. Rydyn ni wedi ymgymryd â'r gwaith archwilio er mwyn gallu dweud wrth aelodau'r Cyngor y materion hynny sydd angen eu cynnwys mewn adroddiad archwilio ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau pennaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn cyfrifoldeb i neb heblaw am y Cyngor, a'r Cyngor fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn sydd gennym.

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi adlewyrchiad gwir a theg o gyflwr y Cyngor fel ar 31 Mawrth 2020 ac o'i incwm a gwariant, am y flwyddyn ddaeth y ben bryd hynny; ac
- wedi eu paratoi yn unol ag Arferion Cyfrifo'r Deyrnas Unedig a Dderbynnir yn Gyffredinol.

## Y sail i'n barn

Gwnaethom ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Cyfrifo Rhyngwladol (DU) (SRAau) (DU)) a deddfwriaeth berthnasol. Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau dan y safonau hynny yn adran 'Cyfrifoldebau'r Archwilwyr wrth archwilio'r datganiadau ariannol' ein hadroddiad. Rydym yn annibynnol ar y Cyngor yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad i ddatganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Moeseg y Cyngor Adrodd ar Gyllid, ac rydyn ni wedi cyflawni'r gofynion moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio rydyn ni wedi ei chasglu yn ddigonol ac yn briodol ar gyfer creu sail i'n barn.

## Casgliadau'n ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol, y mae gofyn i ni adrodd i chi, dan SRAau (DU) pan:

- nad yw defnydd aelodau'r Cyngor o sail cyfrifo busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- nad yw aelodau'r Cyngor wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd materol y gellir ei adnabod sy'n creu amheuaeth sylweddol am allu parhaus y Cyngor Fferyllol Cyffredinol i barhau i ddefnyddio'r sail busnes gweithredol ar gyfer cyfrifo am o leiaf ddeuddeg mis o'r

dyddiad pan fo’r datganiadau ariannol yn cael eu hawdurdodi i’w rhyddhau.

## Gwybodaeth arall

Mae aelodau’r Cyngor yn gyfrifol am wybodaeth arall. Mae’r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a’n hadroddiad archwilio ni arnynt. Nid yw’r wybodaeth arall yn rhan o’n barn ar y datganiadau ariannol ac nid ydym yn mynegi unrhyw gasgliad sicrwydd arni.

Mewn cysylltiad â’n harchwiliad ar y datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall ac o wneud hynny, ystyried a yw’r wybodaeth arall yn faterol anghyson gyda’r datganiadau ariannol neu’r wybodaeth sydd gennym drwy’r archwiliad neu’n ymddangos mewn ffordd arall eu bod wedi eu camddatgan. Os byddwn yn adnabod anghysonderau materol o’r fath neu gamddatganiadau materol ymddangosiadol, mae gofyn i ni benderfynu a oes camddatganiad materol yn y datganiadau ariannol neu gamddatganiad materol o ran y wybodaeth arall. Os down i’r casgliad, ar sail y gwaith rydyn ni wedi ei wneud, bod camddatganiad materol o’r wybodaeth arall hon, mae gofyn i ni adrodd am y ffaith honno.

Nid oes gennym unrhyw beth i’w adrodd yn hyn o beth.

## Cyfrifoldebau’r Cyngor

Fel yr eglurir yn llawnach yn natganiad cyfrifoldebau aelodau’r Cyngor, aelodau'r cyngor sy'n gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi adlewyrchiad gwir a theg, ac am y rheolaeth fewnol y barna aelodau’r cyngor ei bod yn angenrheidiol i alluogi paratoi datganiadau ariannol sy’n rhydd rhag camddatganiadau materol, boed drwy dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi’r datganiadau ariannol, mae aelodau’r Cyngor yn gyfrifol am asesu gallu’r Cyngor Fferyllol Cyffredinol i barhau fel busnes gweithredol, datgelu, fel y bo’n berthnasol, faterion yn ymwneud â busnes gweithredol, a defnyddio sail cyfrifo busnes gweithredol, oni bai bod aelodau’r cyngor yn bwriadu diddymu’r Cyngor Fferyllol Cyffredinol neu i ddod â gweithrediadau i ben, neu fod dim dewis ond gwneud hynny.

## Cyfrifoldebau’r archwilwyr wrth archwilio’r datganiadau ariannol

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a ydy’r datganiadau ariannol fel cyfanwaith yn rhydd rhag camddatganiadau materol, boed drwy dwyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilio sy’n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw’n gwarantu y bydd archwiliad sy’n cael ei gynnal yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) bob amser yn canfod camddatganiad sylweddol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddigwydd oherwydd twyll neu wall a chaent eu hystyried yn sylweddol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellir disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae disgrifiad pellach o gyfrifoldebau’r archwilydd dros archwilio’r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae’r disgrifiad hwn yn llunio rhan o’n hadroddiad archwilio.

**Crowe UK LLP, Archwilydd Statudol**
**Llundain, 11 Mehefin 2020**

## Datganiad incwm cynhwysfawr am y flwyddyn ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020

| | Nod. | 2020 £000 | 2019 £000 |
|---|---|---|---|
| Incwm | 2 | 23,187 | 22,707 |
| Gwariant | 3 | (23,116) | (23,822) |
| **Gwarged gweithredu / (diffyg)** | | 71 | (1,115) |
| Llog derbyniadwy ac incwm tebyg | 4 | 249 | 211 |
| **Gwarged / (diffyg) ar weithgareddau cyffredin** | 5 | 320 | (904) |
| Trethiant | 6 | (47) | (38) |
| **Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn** | | 273 | (942) |

## Datganiad ar y sefyllfa ariannol fel yr oedd ar 31 Mawrth 2020

| | Nod. | 2020 £000 | 2020 £000 | 2019 £000 | 2019 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Asedau sefydlog** | | | | | |
| Asedau diriaethol | 7 | | 2,508 | | 3,132 |
| Asedau anniriaethol | 8 | | 627 | | 746 |
| Buddsoddiadau | 9 | | 12,500 | | 12,500 |
| | | | 15,635 | | 16,378 |
| **Asedau Presennol** | | | | | |
| Dyledwyr | 10 | 1,882 | | 1,247 | |
| Banc ac arian parod | 11 | 13,569 | | 12,610 | |
| | | 15,451 | | 13,857 | |
| Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | 12 | (16,281) | | (15,228) | |
| **Rhwymedigaethau presennol net** | | | (830) | | (1,371) |
| Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol | | | 14,805 | | 15,007 |
| Credydwyr: symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | 13 | | (1,987) | | (2,462) |
| Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau | 14 | | (1,412) | | (1,412) |
| **Cyfanswm asedau net** | | | 11,406 | | 11,133 |
| **Cyllid a ddefnyddiwyd** | | | | | |
| Gwarged cronedig | | | | | |
| - Cronfa Gyffredinol | | | 8,271 | | 7,255 |
| - Cronfa Asedau Sefydlog | | | 3,135 | | 3,878 |
| Cyfanswm cyllid a ddefnyddiwyd | | | 11,406 | | 11,133 |

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol, eu hawdurdodi i'w cyhoeddi a'u llofnodi ar ran y cyngor gan Nigel Clarke, Cadeirydd, ar 11 Mehefin 2020

# Datganiad llifoedd arian am y flwyddyn ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020

| | Nod. | 2020<br>£000 | 2019<br>£000 |
|---|---|---|---|
| **Llifiau arian parod o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Gwarged / (diffyg) am y flwyddyn | | 71 | (1,115) |
| Addasiadau ar gyfer: | | | |
| Dibrisiant ac amorteiddio | 3 | 1,060 | 847 |
| Rhyddhau cymhelliant prydles | 13 | (453) | (453) |
| Trethiant | | (40) | (30) |
| (Cynnydd) / gostyngiad mewn masnach a dyledwyr eraill | | 635 | 490 |
| Cynnydd / (gostyngiad) mewn masnach a dyledwyr eraill | | 1,024 | (706) |
| **Arian net ddarparwyd gan (ddefnyddiwyd mewn) gweithgareddau gweithredu** | | **1,027** | **(967)** |
| Llifiau arian parod o weithgareddau buddsoddi | | | |
| Prynu asedau sefydlog diriaethol | 7 | (32) | (29) |
| Prynu asedau sefydlog anniriaethol | 8 | (285) | (423) |
| Elw wrth waredu | | 0.00 | 4 |
| Llog dderbyniwyd | 4 | 249 | 211 |
| **Arian net (ddefnyddiwyd mewn) gweithgareddau buddsoddi** | | **(68)** | **(237)** |
| **Newid mewn arian a chyfwerth ag arian y cyfnod adrodd** | | **959** | **(1,204)** |
| Arian a chyfwerth ag arian ar ddechrau’r cyfnod adrodd | | 12.610 | 13,814 |
| Arian a chyfwerth ag arian ar ddiwedd y cyfnod adrodd | | **13,569** | **12,610** |
| | | **£000** | **£000** |
| Arian mewn llaw | | 748 | 857 |
| Adneuon â Rhybudd (llai na 3 mis) | | 12,821 | 11,753 |
| **Cyfanswm arian a chyfwerth ag arian** | | **13,569** | **12,610** |

## Datganiad ar newidiadau i gronfeydd am y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

| | Nod. | Cronfa Gyffredinol | Cronfa Asedau Sefydlog | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | | **£000** | **£000** | **£000** |
| Ar 1 Ebrill 2018 | | 7,789 | 4,286 | 12,075 |
| Cyfanswm incwm cynhwysfawr | | (82) | (860) | (942) |
| Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn | | (452) | 452 | 0.00 |
| Ar 1 Ebrill 2019 | | 7,255 | 3,878 | 11,133 |
| Cyfanswm incwm cynhwysfawr | | 1,332 | (1,059) | 273 |
| Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn | | (316) | 316 | 0.00 |
| Ar 31 Mawrth 2020 | | **8,271** | **3,135** | **11,406** |

Mae'r gronfa gronedig wedi cael ei rhannu’n Gronfa Gyffredinol a Chronfa Asedau Sefydlog. Mae’r gronfa asedau sefydlog yn cynrychioli asedau swyddogaethol sy’n cael eu defnyddio’n weithredol. Mae’r gronfa gyffredinol yn cynrychioli balans cronfeydd wrth gefn cronedig y CFfC.

# Nodiadau i'r datganiadau ariannol am y flwyddyn ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020

## 1. Polisïau Cyfrifyddu

Sefydlwyd y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (CFfC) gan Orchymyn Fferylliaeth 2010 ac mae'n preswylio yn y Deyrnas Unedig. Y prif leoliad busnes yw 25 Canada Square, Canary Wharf, Llundain, E14 5LQ.

### 1.1. Fformat y cyfrifon

Mae'n ofynnol bod y CFfC yn paratoi cyfrifon blynyddol ar ffurf a bennir gan y Cyfrin Gyngor. Mae'n ofynnol i'r Cyfrin Gyngor osod y cyfrifon ardystiedig gerbron dau Dŷ Senedd y DU a Senedd yr Alban. Diben statudol y CFfC yw diogelu, hybu a chynnal iechyd, diogelwch a lles aelodau'r cyhoedd drwy gynnal safonau a ffydd y cyhoedd mewn fferylliaeth.

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi eu paratoi ar sail sefydliad gweithredol, yn unol â safonau cyfrifo perthnasol y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102 - 'Y Safon Adrodd berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon' ('SAA 102'). Mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi ar sail costau hanesyddol.

Mae'r Cyngor wedi ystyried y sefyllfa ariannol fel yr oedd ar 31 Mawrth 2020, effaith bosibl Covid-19, a rhagolygon a chyllidebau ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Mae'r Cyngor yn fodlon bod y CFfC yn fusnes gweithredol ac felly mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi ar y sail honno. Cyflwynir y datganiadau ariannol mewn Sterling (£).

### 1.2. Amcangyfrifon cyfrifo a barn gritigol

Er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol yn unol ag SAA 102, rhaid i'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol wneud rhai amcangyfrifon a ffurfio barn gritigol sy'n cael effaith ar y polisïau a'r symiau a adroddir yn y cyfrifon blynyddol. Mae'r amcangyfrifon a'r barnau wedi eu seilio ar brofiadau hanesyddol a ffactorau eraill yn cynnwys disgwyliadau am ddigwyddiadau yn y dyfodol y credir eu bod yn rhesymol ar yr adeg y gwneir yr amcangyfrifon ac y ffurfir y farn dan sylw. Efallai y bydd yr hyn a fydd yn digwydd yn amrywio o'r amcangyfrifon.

Mae'r amcangyfrifon a'r rhagdybiaethau sydd â'r risg bennaf o achosi addasiad materol i'r asedau a'r rhwymedigaethau wedi eu nodi isod:

#### Dibrisiant ac amorteiddio

Mae'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol yn cyfrif am ddibrisiant ac amorteiddio yn unol â SAA 102. Mae'r gost dibrisiad ac amorteiddiad yn cydnabod dirywiad yng ngwerth yr ased a dyraniad o gost yr ased dros y cyfnod y defnyddir yr ased. Llunnir barn ar hyd bywyd defnyddiol yr asedau, ac fe'i hadolygir yn gyson er mwyn adlewyrchu amgylchedd newidiol.

### Dadfeiliad

Ar ôl derbyn cyngor proffesiynol, mae'r CFC wedi gwneud darpariaeth ar gyfer dadfeiliadau. Mae'r rhwymedigaeth bosibl wedi codi o ganlyniad i ffitio'r swyddfa yn wreiddiol yn 2014 ac felly nid oes unrhyw newid wedi bod yn y ddarpariaeth yn ystod y flwyddyn bresennol neu flaenorol.

## 1.3. Asedau sefydlog diriaethol

Mae asedau sefydlog diriaethol yn cynnwys eiddo ac offer ar brydles. Mae'r holl asedau yn y categorïau hyn sydd â gwerth o £1,000 neu fwy wedi cael eu cyfalafu (gan gynnwys y gost o'u gweithredu). Prisir asedau sefydlog ar gost llai dibrisiant. Cyfrifir dibrisiant ar sail linol.

Dyma hyd bywyd economaidd defnyddiol yr asedau:

Gwelliannau prydles byr – cyfnod y brydles

Celfi swyddfa – pum mlynedd

Meddalwedd cyfrifiadurol – tair blynedd

Caledwedd cyfrifiadurol (heblaw am PCs a gliniaduron) – tair blynedd

PCs a gliniaduron – un flwyddyn i bedair blynedd

## 1.4. Asedau sefydlog anniriaethol

Mae asedau sefydlog anniriaethol yn cynnwys meddalwedd a systemau cyfrifiadurol wedi eu datblygu'n fewnol. Mae pob ased yn y categori hwn sydd â gwerth £10,000 neu fwy wedi eu cyfalafu. Cyfrifir amorteiddiad ar sail llinell syth dros 3 blynedd.

## 1.5. Niwed

Ar ddyddiad pob mantolen, mae'r CFfC yn adolygu symiau ei asedau i benderfynu a oes awgrym bod asedau wedi colli gwerth yn sgil niwed. Os oes awgrym o'r fath, mae swm adennill yr ased yn cael ei amcangyfrif er mwyn penderfynu maint y golled yn sgil niwed. Cofnodir colled yn sgil niwed yn y datganiad incwm cynhwysfawr yn syth.

## 1.6. Gwariant

Cyfrifir gwariant ar sail groniadol pan fo'r nwyddau wedi eu derbyn neu'r gwasanaeth wedi ei ddarparu. Mae TAW anadferadwy wedi'i gynnwys gyda'r eitem gwariant y mae'n perthyn iddo.

## 1.7. Incwm

Mae'r holl ffioedd gan gofrestryddion a lleoliadau wedi'u cydnabod yn y datganiad incwm cynhwysfawr yn y cyfnod maent yn perthyn iddo sef y mis y rhoddir unigolyn ar y gofrestr. Mae incwm sydd i'w briodoli yn y dyfodol wedi'i gynnwys gyda chredydwyr o dan y categori incwm gohiriedig.

Caiff llog ar fenthyciadau ac adneuon eu cronni fel y cânt eu hennill.

Cydnabyddir grantiau gan y llywodraeth ar sail y model cronedig ac fe'u cofnodir naill ai fel grant yn ymwneud â refeniw neu grant yn ymwneud ag asedau.

Dangosir pob incwm arall yn y datganiad incwm cynhwysfawr pan fo'n ddyledus.

## 1.8. Rhent prydles gweithredol

Mae prydlesi'n cael eu hystyried yn brydlesi cyllid pan fo telerau'r brydles yn trosglwyddo'n sylweddol yr holl risgiau a gwobrwyau, o ran perchenogaeth o'r prydleswr i'r prydlesai. Mae pob prydles arall yn cael ei hystyried yn brydles weithredu. Cofnodir rhenti prydlesi gweithredol i'r datganiad incwm cynhwysfawr ar sail llinell

syth dros gyfnod y brydles. Mae'r budd cyfanredol ddaw o'r cymhelliant prydles yn cael ei gofnodi fel lleihad ar gost tymor y brydles ar sail llinell syth.

### 1.9. Pensiynau

Mae gan y CFfC gynllun buddion pensiwn diffiniedig a chynllun cyfrannu diffiniedig. Mae cyfraniadau i'r ddau gynllun yn cael eu nodi yn y datganiad incwm cynhwysfawr wrth iddynt ddod yn ddyledus.

### 1.10. Darpariaethau

Mae darpariaeth yn cael ei chydnabod pan fo rhwymedigaeth ar y dyddiad adrodd yn sgil digwyddiad yn y gorffennol, pan fo'n debygol y bydd gofyn i'r CFfC drosglwyddo buddion economaidd a phan fo'n bosibl mesur y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

### 1.11. Rheoli adnoddau hylifol a buddsoddiadau

Mae gan y CFfC un prif gyfrif cyfredol y gwneir ei holl drafodion dydd i ddydd ohono. Cedwir balans y cyfrif hwn mor isel â phosibl er mwyn sicrhau bod cronfeydd dros ben yn cael eu cadw mewn cyfrifon cadw tymor byr i dymor canolig. Y polisi o ran arian parod yw mwyhau enillion tra'n cadw risgiau mor isel â phosibl. Cofnodir arian parod ac adneuon ar gyfer enillion hir dymor mewn 12 mis a mwy o fewn buddsoddiadau.

### 1.12. Offerynnau Ariannol

Dim ond gyda thrafodion offerynnau ariannol sylfaenol sy'n arwain at gydnabod asedau a rhwymedigaethau ariannol megis masnach a chyfrifon taladwy a derbyniadwy eraill, benthyciadau gan fanciau a thrydydd partïon a benthyciadau'n ymwneud â phartïon cysylltiedig y bydd y CFfC yn ymwneud.  Nodir offerynnau ariannol sylfaenol i gychwyn gyda'u gwerth trafodion ac fe'u mesurir wedyn ar y costau amorteiddio.

## 2. Incwm

| | 2020<br>£000 | 2019<br>£000 |
|---|---:|---:|
| Fferyllwyr | 15,120 | 14,668 |
| Lleoliadau | 3,716 | 3,704 |
| Technegwyr fferyllol | 3,017 | 2,920 |
| Cyn-gofrestru | 1,112 | 1,125 |
| Incwm grant | 16 | 16 |
| Incwm arall | 206 | 274 |
| **Cyfanswm incwm** | **23,187** | **22,707** |

## 3. Gwariant

| | 2020<br>£000 | 2019<br>£000 |
|---|---:|---:|
| Costau cyflogeion: cyflogres | 12,732 | 12,554 |
| Costau eraill cyflogeion | 2,384 | 3,232 |
| Costau eiddo | 331 | 278 |
| Costau swyddfa | 317 | 410 |
| Costau proffesiynol | 2,039 | 2,082 |
| Costau'r digwyddiadau | 47 | 467 |
| Costau marchnata | 27 | 62 |
| Dibrisiant ac amorteiddio | 1,060 | 847 |
| Costau ariannol | 221 | 172 |
| Costau ymchwil | 19 | 60 |
| Costau TG | 1,578 | 1,327 |
| Costau eraill | 256 | 240 |
| Costau meddiannaeth | 2,105 | 2,091 |
| **Cyfanswm gwariant** | **23,116** | **23,822** |

## 3. Gwariant (parhad)

### Costau cyflogeion

Roedd costau gweithwyr, gan gynnwys cyfarwyddwyr, fel a ganlyn:

| | 2020<br>£000 | 2019<br>£000 |
|---|---|---|
| Cyflogau | 10,352 | 10,454 |
| Yswiriant Gwladol Cyflogwr | 1,184 | 1,182 |
| Costau pensiwn | 992 | 879 |
| Diswyddo | 204 | 39 |
| | **12,732** | **12,554** |

Nifer cyfartalog y staff oedd yn gyflogedig yn y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 oedd 231 (248 ar 31 Mawrth 2019).

Mae rhestr isod o staff, gan gynnwys cyfarwyddwyr, sy'n ennill dros £60,000: (heb gynnwys costau diswyddo):

| | 2020<br>£000 | 2019<br>£000 |
|---|---|---|
| £60,001 – £70,000 | 11 | 10 |
| £70,001 – £80,000 | 10 | 11 |
| £80,001 – £90,000 | 3 | 1 |
| £90,001 – £100,000 | 2 | 3 |
| £100,001 – £110,000 | 1 | - |
| £110,001 – £120,000 | 4 | 2 |
| £170,001 – £180,000 | 1 | 1 |
| | **32** | **28** |

O dan SAA 102, y personél rheoli allweddol yw'r sawl sydd ag awdurdod a chyfrifoldeb dros gynllunio, cyfarwyddo a rheoli gweithgareddau'r endid, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Mae hyn yn cynnwys y prif weithredwr a chofrestrydd a'r cyfarwyddwyr.

## 3. Gwariant (parhad)

Roedd y tâl ar gyfer personél rheoli allweddol ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2020 £903,603 (£803,657 ar 31 Mawrth 2019). Mae'r dadansoddiad o'u cyflog a'u buddion isod:

| Enw | Teitl swydd | Tâl (wedi eu nodi mewn bandiau 10K) | Budd mewn Nwyddau/ Wasanaethau* (i'r £100 agosaf) |
|---|---|---|---|
| Duncan Rudkin | Prif Weithredwr | £170,000 - £180,000 | - |
| Claire Bryce-Smith | Cyfarwyddwr Mewnwelediad, Gwybodaeth ac Arolygu | £110,000 - £120,000 | - |
| Francesca Okosi | Cyfarwyddwr Pobl | £110,000 - £120,000 | £400 |
| Carole Auchterlonie | Cyfarwyddwr Addasrwydd i Ymarfer | £110,000 - £120,000 | £100 |
| Mark Voce | Cyfarwyddwr Addysg a Safonau | £100,000 - £110,000 | - |
| Jonathan Bennetts | Cyfarwyddwr Cyllid | £90,000 - £100,000 | £600 |

Mae buddion mewn nwyddau neu wasanaethau yn cynnwys gofal iechyd preifat ac aelodaeth campfa wedi ei sybsideiddio.

Mae treuliau ar gyfer personél rheoli allweddol fel a ganlyn:

| Enw | Teithio | Llety | Cynhaliaeth | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Duncan Rudkin | 993 | 162 | 15 | **1,170** |
| Claire Bryce-Smith | 1,691 | - | 21 | **1,712** |
| Francesca Okosi | 1,609 | 147 | - | **1,756** |
| Carole Auchterlonie | 1,537 | 130 | - | **1,667** |
| Mark Voce | 235 | - | - | **235** |

Ni hawliodd Jonathan Bennetts unrhyw dreuliau yn ystod y flwyddyn.

## 3. Gwariant (parhad)

Tâl y cyfarwyddwr oedd yn derbyn y cyflog uchaf fel lluosrif tâl canolrif

| | 2020 £000 | 2019 £000 |
|---|---|---|
| Canolbwynt band cyflog y cyfarwyddwr uchaf ei dâl | 175,000 | 175,000 |
| Cyfanswm tâl canolrifol | 40,760 | 38,776 |
| Cymhareb tâl | 1:4 | 1:5 |

Cyflogau a threuliau aelodau'r Cyngor:

| | 2020 £000 | 2019 £000 |
|---|---|---|
| Cyfanswm tâl aelodau'r Cyngor | 226 | 227 |
| Cyfanswm treuliau dalwyd i aelodau'r Cyngor | 20 | 31 |
| | **246** | **258** |

## 4. Llog derbyniadwy ac incwm tebyg

| | 2020 £000 | 2019 £000 |
|---|---|---|
| Llog derbyniadwy | 249 | 211 |
| | **249** | **211** |

## 5. Cyfanswm incwm cynhwysfawr

Nodir hyn ar ôl codi am:

| | 2020 £000 | 2019 £000 |
|---|---|---|
| Rhent prydles gweithredol: cerbydau modur | 99 | 116 |
| Rhent prydles gweithredol: llungopïwyr | 12 | 9 |
| Rhent prydles gweithredol: adeiladau | 1,238 | 1,231 |
| Dibrisiant asedau sefydlog diriaethol | 656 | 688 |
| Amorteiddio asedau anniriaethol | 404 | 159 |
| Tâl archwilwyr: gwasanaethau archwilio – Crowe | 22 | 22 |

## 6. Trethiant

| | 2020<br>£000 | 2019<br>£000 |
|---|---|---|
| Treth gorfforaethol DU ar 19% yn ystod y flwyddyn | 47 | 38 |
| | **47** | **38** |

Dim ond ar incwm llog derbyniadwy ac incwm tanysgrifiad data, net costau priodol, y mae treth gorfforaethol yn daladwy yn ystod y flwyddyn.

## 7. Asedau sefydlog diriaethol

| | Gwelliannau prydles byr<br>£000 | Offer Swyddfa<br>£000 | Cyfanswm<br>£000 |
|---|---|---|---|
| **Cost** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2019 | 5,607 | 2,197 | 7,804 |
| Ychwanegiadau | - | 32 | 32 |
| Gwaredu | - | (72) | (72) |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **5,607** | **2,157** | **7,764** |
| **Dibrisio** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2019 | 2,661 | 2,011 | 4,672 |
| Tâl am y flwyddyn | 581 | 75 | 656 |
| Gwaredu | - | (72) | (72) |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **3,242** | **2,014** | **5,256** |
| **Gwerth llyfr net** | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **2,365** | **143** | **2,508** |
| Ar 31 Mawrth 2019 | 2,946 | 186 | 3,132 |

## 8. Asedau sefydlog anniriaethol

| | Meddalwedd cyfrifiadurol a datblygu systemau £000 |
|---|---|
| Pris | |
| Balans 1 Ebrill 2019 | 924 |
| Ychwanegiadau | 285 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2020** | **1,209** |
| Amorteiddio | |
| Balans 1 Ebrill 2019 | (178) |
| Tâl amorteiddio am y flwyddyn | (404) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2020** | **627** |

## 9. Buddsoddiadau

| | 2020 £000 | 2019 £000 |
|---|---|---|
| Adneuon arian parod | 12,500 | 12,500 |
| | **12,500** | **12,500** |

Mae arian dros ben ar hyn o bryd yn cael ei fuddsoddi mewn adneuon arian parod, gyda dim mwy na 20% o'r arian mewn unrhyw un sefydliad, yn unol â'n polisi rheoli arian parod.

## 10. Dyledwyr

| | 2020<br>£000 | 2019<br>£000 |
|---|---:|---:|
| Dyledwyr masnachol | 25 | 120 |
| Debydau uniongyrchol aelodau i'w casglu | 200 | 221 |
| Dyledwyr eraill | 145 | 69 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 1,507 | 833 |
| | | |
| Dyledwyr (yn daladwy mewn mwy nag un flwyddyn) | | |
| Dyledwyr masnachol | 5 | 4 |
| | **1,882** | **1,247** |

## 11. Banc ac arian parod

| | 2020<br>£000 | 2019<br>£000 |
|---|---:|---:|
| Cyfrifau cyfredol | 748 | 857 |
| Cyfrifau cadw | 12,821 | 11,753 |
| | **13,569** | **12,610** |

Symudir arian o gyfrifau cadw i'r cyfrif cyfredol yn ôl y gofyn. Mae hyn yn sicrhau yr adenillir cymaint â phosibl ar arian cadw. Mae'r CFfC yn cynnal gwariant gweithredol 6 mis fel cronfa hylifedd wrth gefn i'w cadw mewn cronfeydd hylifol ar gyfer rhedeg y sefydliad o ddydd i ddydd.

## 12. Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

| | 2020<br>£000 | 2019<br>£000 |
|---|---|---|
| Credydwyr masnachol | 828 | 673 |
| Treth gorfforaethol | 47 | 40 |
| Trethi eraill a nawdd cymdeithasol | 325 | 314 |
| Credydwyr eraill | 18 | 13 |
| Wedi cronni | 883 | 615 |
| Incwm wedi ei ohirio | 14,180 | 13,573 |
| | **16,281** | **15,228** |

Mae incwm wedi ei ohirio’n cynnwys y canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Incwm wedi ei ohirio gan aelodau a lleoliadau | 14,100 | 13,481 |
| Incwm arall wedi ei ohirio | 17 | 13 |
| Grant cyfalaf wedi ei ohirio | 63 | 79 |
| | **14,180** | **13,573** |

Mae pob incwm gohiriedig gan aelodau a lleoliadau yn cael ei ryddhau i incwm y flwyddyn wedyn.

## 13. Credydwyr: symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn

| | 2020<br>£000 | 2019<br>£000 |
|---|---|---|
| Balans 1 Ebrill | 2,462 | 2,886 |
| Cronfa wrth gefn yn ystod y flwyddyn | | |
| Cynnydd rhent wedi cronni | (22) | 29 |
| Wedi ei ryddhau o'r gronfa wrth gefn yn ystod y flwyddyn | (453) | (453) |
| Balans ar 31 Mawrth | **1,987** | **2,462** |
| Rhaniad y gronfa rent | | |
| Cronfa wrth gefn yn gwrth-droi mewn blwyddyn | 481 | 481 |
| **Rhwymedigaethau presennol** | **481** | **481** |
| Cronfa wrth gefn yn gwrth-droi o fewn dwy i bum mlynedd | 1,501 | 1,922 |
| Cronfa wrth gefn yn gwrth-droi ymhen mwn na phum mlynedd | 5 | 59 |
| **Rhwymedigaethau nad ydyn yn rhai presennol** | **1,506** | **1,981** |
| | | |
| **Cyfanswm** | **1,987** | **2,462** |

Mae'r brydles ar 25 Canada Square yn Canary Wharf ar gyfer 15 mlynedd gyda chymal-torri prydleswr yn unig ar ôl 10 mlynedd. . Mae'r CFfC wedi cael budd o gyfraniad cyfalaf o £4.4m, fel cymhelliant landlord, tuag at ail-ddodrefnu'r lleoliad. Mae'r cymhelliant hwn, a rhai eraill, yn cael eu gwasgaru dros gyfnod 10 mlynedd y brydles yn erbyn y costau rhent blynyddol

## 14. Darpariaethau

| | 2020<br>£000 | 2019<br>£000 |
|---|---|---|
| Dadfeiliad | 1,412 | 1,412 |
| | **1,412** | **1,412** |

Yn dilyn adolygu prydles 25 Canada Square ac wedi derbyn cyngor proffesiynol, mae'r CFfC wedi darparu ar gyfer dadfeiliad. Mae'r rhwymedigaeth bosibl wedi codi yn sgil dodrefnu gwreiddiol y swyddfa yn 2014 ac felly ni fu newid i'r ddarpariaeth yn ystod y flwyddyn bresennol na'r un flaenorol.

## 15. Ymrwymiadau

Fel y mae ar 31 Mawrth 2020 lleiafswm taliadau prydles gweithredol y CFfC yw:

| | 2020<br>£000 | 2019<br>£000 |
|---|---|---|
| O fewn un flwyddyn | | |
| Cerbydau modur | 85 | 98 |
| Eiddo | 787 | 778 |
| Offer | 12 | 12 |
| | **884** | **888** |
| Rhwng un flwyddyn a phum mlynedd | | |
| Cerbydau modur | 117 | 190 |
| Eiddo | 2,459 | 3,113 |
| Offer | 17 | 29 |
| | **2,593** | **3,332** |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | | |
| Eiddo | - | 97 |
| | **-** | **97** |

Y taliadau prydles ariannol blynyddol dan brydles gweithredu'r eiddo yw £1.2m. Mae'r ymrwymiad a nodir uchod yn ystyried y cymhelliant prydlesi a dderbyniwyd ar gychwyn y brydles ac sy'n cael ei amorteiddio ar sail llinell-syth dros gyfnod y brydles ar £0.5m.

## 16. Partïon Cysylltiedig

Dangosir tâl a threuliau a dalwyd i aelodau'r cyngor yn nodyn 3 (tâl a threuliau aelodau'r cyngor).

## 17. Rheoli risg ariannol

Mae gan y CFfC fframwaith rheoli risg ffurfiol y mae'r Cyngor yn atebol amdano. Mae'r CFfC yn agored i risg hylifedd. Amcan y CFfC wrth reoli risgiau hylifedd yw sicrhau ei fod yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau ariannol pan fônt yn ddyledus. Mae'r CFfC yn disgwyl cyflawni ei oblygiadau ariannol drwy lifoedd arian gweithredol. O ystyried argaeledd arian parod, mae'r CFfC mewn sefyllfa i allu cyflawni ei ymrwymiadau a'u goblygiadau wrth iddynt ddod yn ddyledus. Mae cronfeydd yn cael eu gosod mewn sefydliadau graddfa fuddsoddi.

## 18. Pensiynau

### Cynllun Buddion Pensiwn Diffiniedig GIG

Mae'r CFfC yn cyfrannu at Gynllun Pensiwn y GIG mewn perthynas â 92 o gyflogeion (2018: 94 o gyflogeion). Nid yw'r cynllun yn cael ei redeg mewn ffordd a fyddai'n galluogi cyrff y GIG i adnabod eu cyfran nhw o asedau a rhwymedigaethau gwaelodol y cynllun. Felly, cyfrifir y cynllun fel petai'n gynllun cyfrannu diffiniedig: bernir bod y gost i'r Corff GIG sy'n cyfrannu at y cynllun yn hafal â'r cyfraniadau sy'n daladwy i'r cynllun yn ystod y cyfnod cyfrifo. Mae'r tâl pensiwn ar gyfer y flwyddyn yn cynnwys cyfraniadau taladwy i gynllun y GIG, sef £666,307 (2018/19: £657,487).

Mae gwerth rhwymedigaeth y cynllun ar 31 Mawrth 2020 wedi ei seilio ar ddyddiad prisio 31 Mawrth 2019, wedi ei ddiweddaru at 31 Mawrth 2020 gyda data aelodau a chyfrifo cynhwysol cryno. Diben y prisiad hwn yw asesu lefel rhwymedigaeth o ran y buddion sy'n ddyledus dan y cynllun (gan ystyried profiad demograffig diweddar) ac i argymell cyfraddau cyfrannu sy'n daladwy gan gyflogeion a chyflogwyr. Mae rheoliadau'r cynllun yn caniatáu i lefelau'r cyfraddau cyfrannu gael eu newid gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd, gyda chydsyniad Trysorlys Ei Mawrhydi, ac ystyriaeth o gyngor actwari'r cynllun a chynrychiolwyr cyflogeion a chyflogwyr fel y bernir yn briodol.

Cwblhawyd y prisiad actwaraidd diweddaraf ar gyfer Cynllun Pensiwn y GIG ar 31 Mawrth 2016. Gosododd canlyniadau'r prisiad hwn y cyfraddau cyfrannu gan gyflogwyr o Ebrill 2019. Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ddiweddar wedi gosod rheoliadau ar y cynllun yn cadarnhau y bydd cyfradd cyfrannu cyflogwyr yn codi i 20.6% o gyflog pensiynadwy o'r dyddiad hwn. Fodd bynnag, bydd y CFfC yn talu'r gyfradd 14.38% ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20 gan y bydd y cynnydd yn y raddfa yn cael ei dalu'n ganolog.

Roedd disgwyl i brisiad 2016 hefyd roi prawf ar gost y cynllun mewn perthynas â'r terfyn cost a osodwyd ar gyflogwyr yn sgil prisiad 2012. Yn sgil penderfyniad gan y Llys Apêl yn Rhagfyr 2018 cyhoeddodd y llywodraeth oedi i'r rhan honno o'r broses brisio tra'n disgwyl i'r broses gyfreithiol ddod i ben.

**Cynllun Cyfrannu diffiniedig**

Mae'r CFfC hefyd yn gweithredu cynllun cyfrannu diffiniedig. Cyfanswm y cyfraniadau i'r cynllun hwn yn y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 oedd £323,572 (2018/19: £221,540) o ran 106 o gyflogeion (2018/19: 120 o gyflogeion). Roedd y cynnydd mewn costau pensiwn yn ganlyniad i gynnydd yn isafswm cyfraniad cyflogwyr o 3% i 5%.

Mae cyfraniadau gan gyflogeion yn wirfoddol, er bod gan staff opsiwn i optio allan. Pan fo cyflogai yn dewis bod yn aelod, bydd y CFfC yn cyfrannu fel a ganlyn:

| Cyfraniad cyflogai | Cyfraniad cyflogwr |
|---|---|
| 5% | 5% |
| 6% | 12% |
| 7% | uchafswm o 14% |

## Atodiad 1: Penderfyniad Ar Gyfrifon y Cyngor Fferyllol Cyffredinol gan y Cyfrin Gyngor dan Orchymyn Fferylliaeth 2010

Mae Eu Harglwyddi yn penderfynu fel a ganlyn wrth ymarfer y pwerau a roddir gan Atodlen 1 (7) Gorchymyn Fferylliaeth 2010.

Mae'r penderfyniad hwn yn weithredol o 13 Mawrth 2010.

**Dehongliad**

1. Yn y penderfyniad hwn -

mae "y cyfrifon" yn golygu'r datganiad cyfrifon y mae'n ddyletswydd ar y Cyngor eu paratoi dan adran 2 Atodlen 1 (7) Gorchymyn Fferylliaeth 2010

mae "y Cyngor" yn golygu'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol.

**Penderfyniad**

2. Rhaid i’r Cyngor baratoi’r cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn galendr yn unol â’r egwyddorion cyfrifo a’r anghenion datgelu a ddisgrifir yn y Safonau Cyfrifo a Dderbynnir yn Gyffredinol (GAAP).
3. Bydd y cyfrifon cyntaf yn cael eu paratoi ar gyfer y flwyddyn ariannol 2010-2011, ac yn cynnwys datganiad ar unrhyw gyfrifon sy’n weddill o’r flwyddyn ariannol 2009-2010.
4. Rhaid i'r cyfrifon gael eu paratoi i roi adlewyrchiad gwir a theg o gyflwr y sefydliad fel y mae ar ddiwedd y flwyddyn galendr ac o'r incwm a'r gwariant, cyfanswm enillion a cholledion (neu, fel y bo'n briodol, enillion a cholledion), a llif arian y Cyngor am y flwyddyn galendr a ddaeth i ben.
5. Bydd cydymffurfio gyda'r GAAP yn angenrheidiol, heblaw am mewn amgylchiadau neilltuol, er mwyn i'r cyfrifon roi adlewyrchiad gwir a theg o gyflwr y sefydliad yn y flwyddyn ariannol dan sylw.
6. Os oes amgylchiadau neilltuol o'r fath ac y byddai cydymffurfio â gofynion y GAAP yn arwain at baratoi cyfrifon sy'n anghyson gyda'r gofyniad iddynt fod yn adlewyrchiad gwir a theg o gyflwr y sefydliad ar ddiwedd y flwyddyn, dim ond i'r graddau y mae'n angenrheidiol i roi adlewyrchiad gwir a theg o gyflwr y sefydliad y dylid gwyro oddi wrth y GAAP
7. Mewn achosion y cyfeirir atynt ym mharagraff 5, dylid defnyddio crebwyll diduedd a gwybodus i lunio triniaeth wahanol sy'n gyson gyda nodweddion economaidd yr amgylchiadau dan sylw.
8. Dylid trafod gwyro materol o'r GAAP, gyda'r Cyfrin Gyngor i gychwyn, mewn unrhyw amgylchiadau.
9. Rhaid atgynhyrchu'r penderfyniad hwn fel atodiad i'r cyfrifon cyhoeddedig.

Arwyddwyd drwy awdurdod y Cyfrin Gyngor

**Cyngor Fferyllol Cyffredinol**
**25 Canada Square, Llundain E14 5LQ**
Ff **020 3713 8000**
E **info@pharmacyregulation.org**

**@TheGPHC**
**TheGPHC**
**/company/general-pharmaceutical-council**
**www.pharmacyregulation.org**